"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1877. [RHIF 52.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Efengyl y Newyddion Da	73
A ydyw Undodiaid yn Gristionogion?	77
Ympryd y Grawys	82
Gardd y Brenin	83
Yr Helbul yn Llwynrhydowen	85
Y Parch. Charles Beard, Liverpool, ar y Mesur Claddu	91
Awgrymiadau i Ffermwyr	92
Hanesion	93
Marwgofion	94
Barddoniaeth	96

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

TRYSORFA Y CAUAD ALLAN YN LLWYNRHYDOWEN, SIR ABERTEIFI.

MAE hen gynnulleidfa barchus y Llwyn wedi eu chau allan o'i chapel a'i difeddiannu o'i mynwent llawn o feirwon. Y rhesymau a roddid gan y tirfeddiannwr, perchenog presenol ystâd Alltyrodyn, oedd (1) nad oedd ymddiriedolwyr wedi eu happwyntio i ganlyn y rhai a enwid yn mhrydles 1781, y rhai oeddynt wrth reswm oll wedi marw. (2) Pe buasai ymddiriedolwyr wedi eu happwyntio yn ol y gyfraith y buasid er hyny yn eu difeddiannu HWYTHAU am fod y capel wedi ei ddefnyddio at ddybenion heblaw addoliad Duw. [Ni roddir yr un eglurhad pa beth a feddylir wrth hyn]. Er fod tair blynedd o'r brydles heb fyned allan, yn hytrach nag ymgyfreithio, barnodd y gynnulleidfa yn ddoethach ar unwaith i ffurfio trysorfa i brynu tir at godi capel newydd coffadwriaethol yn gystal ag at fynwent. Mae y tanysgrifiadau isod wedi eu gwneyd, a bydd y gweinidog a'r gynnulleidfa yn ddiolchgar iawn am bob cymhorth arianol oddiwrth gyfeillion rhyddid gwladol a chrefyddol yn mhlith pob enwad. Bernir y bydd eisieu o leiaf £3000 at brynu tir ac adeiladu. Nid yw hyn ond amcan-gyfrif, ac yn gyffredin mae y treuliau yn myned y tuhwnt i'r amcangyfrifon. Mae hanner cyfer o dir wedi ei brynu, ryw hanner milldir oddiwrth yr hen gapel, am y swm o £450. Amgylchiadau neilluol yn peri fod y pris mor anarferol o uchel.

	£	s.	d.
Sums already advertised ...	1722	18	7
Mrs. Roberts, Gweddill-dewi, Merthyr	0	10	0
John Thomas, Surgeon, Cardigan	0	10	0
D. M. Palmer, B.A., Cardigan Grammar School	0	10	0
Per Mr. John Evans, Nantgwynne, Blaenffos, R. S. O. :—			
J. P. Davies, Brynderi ..	0	5	0
D. Evans, Fronlas... ..	1	0	0
J. Rees, Tre-elyn	0	2	6
Melchior Evans, Tyddyn ..	0	10	0
R. Griffiths, Trefach ..	0	2	6
W. Jones, Crymmych ...	0	2	6
Asa & Ivor Evans, Solicitors, Cardigan	0	10	6
John Phillips	0	1	0
John Owen, Glogwl ..	0	10	0
J. Davies, Station-master ..	0	2	6
Mrs. Rachel Davies, do. ..	0	2	6
John Phillips, Glandwr ..	0	2	6
Evan Phillips, Trogan ..	0	2	6
C. Lewis, Llethermawr ...	0	2	6
S. Rees, Felin-uchaf ...	0	1	0
D. Luke, Blaengafren ...	0	5	0
C. John, Eglwyswrw ...	0	5	0
C. E. Rees, Fountain hill ...	0	2	6
R. Watkins, Eglwyswrw ...	0	5	0
D. Davies, Bryncws ..	0	2	0
W. Evans, Nantyrhelygen ..	0	5	0
John Phillips, Eglwyswrw ..	0	1	6
B. Rees, Granant ..	0	5	0
Rev. W. Griffiths, Bethel ..	0	2	6
D. Jones, Trewern ..	0	1	0
Rev. J. Jenkins, Newport ...	0	2	6
Mrs. James, Red Lion Inn ...	0	1	0
J. Davies, Wrianog-fach ...	0	5	0
D. Phillips, Rhosdwarch ..	0	5	0
E. George, Baily	0	5	0
J. Morris, Tyllwyd ..	0	5	0
J. Evans, Tygwyn ..	0	1	0
W. Evans, Palle	0	2	6
Rev. J. N. Richards, Penygroes	0	2	6
John Evans, Nantgwynne ...	1	0	0
John Pullar, junior, Bridge of Allan, N.B.	1	1	0
William Oulton, do.	0	10	6
W. C. Jolly, Bath	1	1	0
William Kay, M.P., Adelaide, South Australia	5	0	0
Evan Davies, Board School, Lampeter Velfrey	0	10	6
Per Stephen Owens, Whitland :—			
Thos. Jones, Stag.. ..	0	2	6
Mrs. Phillips, Bush ..	0	1	0
B. Griffiths, junior ..	0	2	6
Phillip Thomas, Tanner ..	0	1	0
A Churchman Friend, J.P. ..	0	1	0
Levi James, Saddler ..	0	1	0
Mr. Davies, Shop	0	5	0
John Rees, Lamb	0	4	0
Richard Phillips, Blaentrafle .	0	10	6
D. Rees, Draper, Whitland ..	0	5	0
John Howells, Wernhyddod..	0	1	0
James Davies, Goitre ..	0	5	0
Joseph Gibbon, Mill ..	0	1	0
W. John, Factory	0	0	6
J. Evans, Bailymawr ..	0	0	6
Eben Jones, Ffynonfoida ..	0	2	0
Thos. Williams, Lan ..	0	2	6
John James, Llwyngwydd ..	0	5	0
Mrs. John, Aber	0	1	6
J. James, Blaencedwen ..	0	2	6
Miss Williams, Blaenwauneirch	0	2	6
Jas. Davies, Wernolefawr ..	0	10	0
A Unitarian Friend ..	0	10	0
Rees Howells, Gellydogin ..	1	1	0
Thos. Davies, Dolbwba ..	0	5	0
Friends from Twrgwyn Methodist Chapel, per S. Morris, Garegwen	0	12	6
John Jones, Rhiwonen, Talsarn	0	12	6

Secretary : Rev. Wm. Thomas, M.A., The Grammar School, Llandyssul.
Treasurer : John Jones, Esq., Solicitor, Llandyssul.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1877. [RHIF. 52.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

EFENGYL Y NEWYDDION DA.

[*Parhad o tudalen* 52.]

YR wyf yn gwybod yn eithaf da fod iachawdwriaeth yn ol y *system* uniawngred, yn cael ei chynnyg yn rhydd i bawb. Ond mae yn sicr hefyd fod yn rhaid i ni edifarhau er mwyn cael ein hachub, mae yn rhaid i ni gael ein troi a'n hail eni; ac mae yn sicr fod y rhai hyn yn cael eu desgrifio fel profiadau dirgelaidd, nas gallwn ni ddim eu sylweddoli ond trwy rhyw ddylanwad dwyfol neillduol. Mae y perygl yn cael ei osod allan fel yn un gwirioneddol a sicr, ond mae dull y waredigaeth yn ddirgelaidd, ac nid yn ein gallu ni ein hunain. Dyma paham yr wyf yn meddwl nad yw iawnffyddiaeth yn eu ffurfiau gwahanol yn wirioneddol yn efengyl y newyddion da, ac o ganlyniad nad yw yn wir efengylaidd. Mae gan yr Eglwys Babaidd ragorfraint yn y peth hwn mewn cymhariaeth a'r Eglwys Brotestanaidd. Tra yn desgrifio y perygl yn yr un ffordd, mae yn cyfeirio at foddion plaen, syml ac ymarferol i ddianc rhagddo. Nis gall Protestant iawnffyddol byth ddweyd yn gywir beth i wneyd er mwyn i ddyn gael ei gyfnewid a'i achub; ond gall y Roman Catholic. Y cwbl ag sydd yn eisieu i wneyd yw cyfranogi o'r sacramentau. Mae yn rhaid iddo gael ei fedyddio, a thrwy y moddion hyny ddyfod yn blentyn i Dduw; unwaith bob blwyddyn mae yn rhaid iddo gyfranogi o'r sacrament. Yna oes dim gwahaniaeth pryd y bydd farw, mae yn sicr o ddianc uffern, ac ar ol treulio ychydig amser yn y purdan, mae yn sicr o fyned i'r nefoedd yn ei gyfer, a gallaswn feddwl y gellid feallai galw hwn, pe credid ef, mewn ystyr yn newydd da.

Ond ar ol y cwbl nid yw yn deimlad cyssurus a chalonogol i glywed fod ein Tad nefol yn Fôd ag sydd wedi creu rhai o'i blant gyda'r bwriad o'u cospi gydag arteithiau ofnadwy am bob tragwyddoldeb. Hyd y nod os gallwn *ni* ddianc, nid yw yn newydd da i glywed am berygl a dinystr diamheuol miliynau o'n cydgreaduriaid. Pan y clywsom er ys

rhyw ychydig yn ol am gyd-darawiad y ddwy *steamer* hyny ar y môr, ac am suddiad y fath nifer o deithwyr yn y dyfrllyd fedd, a oedd y fath adroddiad yn newydd da, oblegyd ein bod ni ein hunain yn ddyogel? Tybiwch ein bod ni yn bresenol ar y *wreck*, ac yn cael ein cymmeryd i fyny gan long arall a'u dwyn i dir, tra y gwelem oddiamgylch, wyr a gwragedd, a phlant yn ymdrechu yn ofer am fywyd, a fyddem ni yn barod y pryd hwnw i waeddi allan mewn llawenydd, "Newydd da! newydd da! 'rwyf fi yn *safe*."

Newyddion da Cristionogaeth yn ol y gredo iawnffyddol, yw fod miliynau ar filiynau o'n cydgreaduriaid wedi myned i lawr yn barod i boenau uffern heb un gobaith am waredigaeth, ac y bydd miliynau etto i'w canlyn, tra y gallwn ni a rhyw rai ereill mewn gwledydd efengyl gael ein hachub. Ai dyna y newyddion da o lawenydd mawr a ddygodd yr Iesu i'r byd? Ai dyna achos llawenydd yr angylion oedd yn adseinio dros y rhagfuriau sydd yn rhanu y nefoedd a'r ddaear, ac yn peru fod caniadau y llu nefol yn cael eu clywed gan y bugeiliaid ar wastadeddau Bethlehem? Nis gallaf feddwl hyn. Mae y newyddion da yn bethau gwahanol iawn. Tybiwn yn nesaf fod rhyw bregethwr o'r blaid rydd resymol mewn crefydd yn dyfod at y Chinaman neu y Japanese. Beth sydd ganddo ef i ddweyd am ei grefydd?

Mae yn dweyd wrthynt yn gyntaf ddammeg y mab afradlon, er dangos fod pechod yn gynnwysedig mewn myned ymaith oddiwrth Dduw a'i gyfraith, ac ymollwng gyda phleserau hunanol a gwag. Yna mae yn dysgu mai dyben dyoddefaint yw peru i ni edifarhau a dychwelyd, a phan y byddom ni yn edifarhau a dychwelyd, fod Duw yn Dad i ni, ac yn llawen i'n derbyn ni yn ol. Mae'n dweyd fod Duw bob amser yr un; nad ydyw ef ddim mewn angen am unrhyw aberth nac iawn; fod nefoedd yma, ac fod uffern yma; fod pechod ei hunan yn uffern, a chariad a phurdeb yn nefoedd. Yn awr pa un ai ydyw yr olwg yma am Dduw yn wir neu beidio, mae o'r hyn leiaf yn "newyddion da."

Mae yn dweyd wrthynt yn nesaf am y Samariad da a dosturiodd wrth un a syrthiodd yn mysg lladron ar y ffordd o Jerusalem i Jericho, er mwyn dangos fod pawb dynion yn gymmydogion ac yn frodyr; fod Duw yn caru ei holl blant yr un fath, ac fod yn rhaid iddynt hwy hefyd garu eu gilydd. Mae'n dweyd wrthynt nad yw'r Iuddew ddim yn anwylach yn ngolwg Duw na'r Ffrancwr neu'r Indiad, ac nad yw'r Cristion ddim mwy o *favorite* na'r Buddhist neu'r Mahommedan, fod yn rhaid iddynt oll gan hyny gynnorthwyo y naill y llall, ac felly yn y modd goreu wasanaethu Duw. Mae'n dweyd wrthynt hefyd, mai y ffordd at Dduw a'r nefoedd yw gwneyd yr hyn a allwn, ac ymddiried ynddo Ef am allu i wneuthur rhagor; fod yr hwn sydd yn derbyn yr holl wirionedd mae'n weled, yn sicr o weled rhagor; ac y bydd gan yr hwn sydd yn gwneyd yr holl ddyledswyddau ag mae'n alluog i wneyd, allu i wneuthur rhagor. Dywed wrthynt na ddylid beio un dyn am ei anghrediniaeth, os ydyw yn onest, ac nad oes un teilyngdod mewn credu os na fydd yn cynnwys cariad at y gwirionedd, ac ymgais egniol i'w gyrhaedd. Dywed nad yw Duw yn

gofyn oddiwrthym ni bethau mawr, ond i fod yn ffyddlon yn mhethau bychain bywyd beunyddiol. Mae yn sicrhau iddynt, os gwnant yr hyn a allant, y byddant yn ddyogel ac yn ddedwydd yma, ac hefyd ar ol myned oddiyma.

Yn ddiweddaf, mae'n dweyd wrthynt nad yw crefydd yn rhywbeth wrtho ei hunan, ond yn yspryd daionus, yn yspryd gwirionedd a chariad, yn llanw ac yn treiddio holl fywyd dyn. Dywed nad yw crefydd yn gynnwysedig mewn gweddiau a sacramentau yn fwy nag mewn gwaith beunyddiol, a'i bod yn perthyn i ddydd Llun a dydd Mawrth yn gystal ag i ddydd Sul, i'r siop a'r heol, yn gystal ag i'r aelwyd gartref. Mae'n dweyd wrthynt fod Duw yn dadguddio ei hun mewn natur ac mewn gwyddor, yn gystal a thrwy brophwydi a llyfrau cyssegredig; ei fod yn dadguddio ei hun yn mhob enaid da a santaidd, yn y calonau serchus a charedig sydd oddiamgylch i ni, yn nghariad tad a mam, yn gystal ag yn ngeiriau Esaiah a Chonfucius. Mae'n dweyd fod yr holl Ysgrythyr wedi ei rhoddi gan ysprydoliaeth Duw, Ysgrythyrau y dwyrain a'r gorllewin, pob llyfr sydd yn derchafu dyn: fod Ysgrythyrau yr Hindwaid a'r Persiaid wedi eu hanfon gan Dduw mor bell ag y maent yn cynnwys gwirionedd dwyfol, a bod Cristionogaeth yn well na chrefyddau ereill, oblegyd ei bod yn ëangach, yn ddyfnach, yn fwy dynol, yn fwy rhydd.

Yna mae y pregethwr yn myned yn mlaen i ddweyd fod pob bywyd yn myned rhag ei flaen, mai dim ond y wisg ddiflanol sydd yn darfod, fod Crist wedi codi i fyny o'r byd yma i fyd uwch, ac y cawn ninau ei ganlyn ef. Mae'n dweyd nad oes gwir wahaniad rhwng y ddau fyd; fod y byd nesaf yn dechreu cyn bo'r byd hwn yn terfynu, nad diwedd yw marwolaeth ond dechreuad, nid myned i lawr i'r bedd, ond i fyny i fodolaeth mwy cyflawn a mwy cyfoethog. Dywed mai myned i fyny yw y gwir adgyfodiad, esgyniad i fyd gwell ac nid ail ddychweliad i'r byd hwn.

O'r ddwy efengyl yma, yr wyf yn gofyn yn awr, Pa un yw'r mwyaf efengylaidd? Pa un o honynt sydd yn newydd da i ni mewn gwirionedd? A ydyw'r efengyl hono yn newydd da sydd yn gadael yn y bydysawd lynclyn anobeithiol uffern dragywyddol ochr yn ochr a'r nefoedd lle mae rhyw ychydig dewisol yn preswylio, *plan* a fyddai yn gwahanu tadau a mamau, brodyr a chwiorydd, cyfeillion ac anwyliaid oddiwrth eu gilydd am dragwyddoldeb? A ydyw yn newydd da i'w glywed na fydd Duw am bob tragywyddoldeb yn teyrnasu ond dros un ran o'i ymherodraeth, ac y bydd y diafol yn frenhin am byth dros y llall? A ydyw ddim yn well newydd i wybod fod yr ysmotiau duon hyny ar wyneb y greadigaeth, drwg, poen, pechod a marwolaeth i gael eu gwneyd yn offerynau daioni yn y diwedd, y bydd pob glin yn plygu yn y diwedd, a phob tafod yn cyfaddef fod Iesu Grist yn Arglwydd er gogoniant Duw Dad?

Yn awr, os yw y rhai hyny a gredant mewn Cristionogaeth gul, cyfyngedig i ran o greaduriaid a chreadigaeth Duw yn dewis ei galw yn gyfundrefn efengylaidd, ac yn efengyl newyddion da, nid oes genyf wrthwynebiad. Gadewch iddynt hwy gadw yr enw.

Ond gadewch i'r rhai hyny a dderbyniant Gristionogaeth mewn ystyr arall ac uwch ddangos y ffydd hon yn yspryd a thymher eu bywyd beunyddiol. Maent yn byw mewn byd llawn o'r cariad dwyfol, lle mae trallodion a phrofedigaethau yn gysgodau ydynt yn pasio heibio ac yn dwyn daioni yn eu lle. Bydded iddynt fod yn llawen ac yn ddiolchgar. Na fydded iddynt gael eu gofidio gan siomedigaethau, neu gael eu haflonyddu gan anhawsderau tymhorol, neu fod yn brydderus yn nghylch y byd hwn nâ'r byd arall. Bydded iddynt ymddiried yn Nuw, ac yn ei Ragluniaeth nad yw yn pallu. Bydded iddynt wneyd a'u holl egni yr hyn a ddaw i'w dwylaw o'r hyn sydd yn brydferth ac yn dda.

Gellir dweyd feallai fod y gyfundrefn yma yn cymmeryd golwg rhy ffafriol ar y byd, ei bod yn gwneuthur yn ysgafn o ddrygioni a phechod. Yn ddiamheu dyna'r olwg mae gwir Gristionogaeth yn gymmeryd, oblegyd mae yn dysgu fod pob peth yn cydweithio er daioni y rhai sydd yn caru Duw; mai cariad yw Duw a'i fod yn trigo mewn cariad; ac fod y cariad hwn yn gorchfygu pob drwg, fel y byddo Duw oll yn oll. Ond nid yw yn gwadu nad yw drygioni a phechod yn bethau sylweddol yn bodoli yn y byd. Yr ydym bawb yn gwybod am y drwg hwn. Mae'n *matter of fact.* Mae pechod yn bodoli, nis gellir gwadu hyny. Yr unig gwestiwn yw, A ydyw yn bodoli er mwyn dyben da neu ddyben drwg? A ydyw i gyd i derfynu mewn daioni neu a ydyw i fyned yn mlaen am byth fel drwg? A ydyw yn ei natur yn anfeidrol neu yn feidrol, yn gyfyngedig yn ei ddylanwad neu yn anghyfyngedig? Mae iawnffyddiaeth yn honi yr olaf, tra mae Cristionogaeth rydd yn honi y blaenaf. Yr ydym ni yn dweyd fod pechod yn bodoli, ond ei fod yn bodoli er mwyn daioni, a'i fod i derfynu mewn daioni. Mae yn bodoli fel y gallwn ni ei wrthwynebu ac ymladd yn ei erbyn, ac felly ddadblygu nerth, cadernid, a rhinwedd. Mae yn bodoli fel y byddom ni yn alluog i ddewis rhwng drwg a da, ac felly i fod yn fodau rhydd. Gan fod y gwahaniaeth rhwng y meidrol a'r anfeidrol yn wahaniaeth anfeidrol, mae yn canlyn fod y gwahaniaeth rhwng yr olwg iawnffyddol ar bechod a'r olwg wrthwynebol yn wahaniaeth anfeidrol. Mae yr olwg uniawngred yn gwneuthur bywyd yn sefyllfa o brawf. Yr ydym ni yma ar brawf, ar ein *trial*, a chan gynted ag y symmudwn ni o'r byd yma, bydd y ddedfryd yn cael ei chyhoeddi arnom. Mae yr olwg arall yn gwneuthur bywyd nid yn sefyllfa o brawf ond yn sefyllfa o addysg. Yr ydym i gael ein haddysgu trwy ein profiad, i gael ein dadblygu i rywbeth uwch. Yr ydym i dyfu i fyny yn mhob peth, ac i ddyfod yn debycach debycach o hyd i Iesu Grist. Os mabwysiadwn yr olwg obeithiol am lywodraeth Duw dros y byd, bydded i ni fod yn ddiwyd i wneuthur ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn sicr. Bydded i ni fod yn ffyddlon i'r hyn ag mae Duw wedi ymddiried i ni, ac os ydyw ein henwad yn ddibwys, ac os ydyw ein capeli a'n cynnulleidfaoedd yn fychain ac yn anaml, bydded i ni deimlo gwerth ein syniadau, teimlo eu pwysigrwydd fel gwirionedd Duw i'n heneidiau, teimlo fod y ffydd hon a'r gobaith hwn yn fara'r bywyd, heb yr hwn y byddem yn newynu ac yn marw. C.

A YDYW UNDODIAID YN GRISTIONOGION?

GAN Y PARCHEDIG JOHN WRIGHT, BATH.

Parhad o tudalen 30.

GWAITH hawdd iawn fyddai gwneuthur dyfyniadau hirfaith o ysgrifeniadau Trindodiaid enwog, y rhai ydynt wedi caniatau i Undodiaid yr hawl o'r enw Cristionogol. Yn eu plith Esgob Gibson, Esgob Watson, Dr. Doddridge, Dr. Parr, Esgob Bathhurst, Dr. Chalmers, ac Esgob Hampden. Rhaid i ddau ddyfyniad fod yn ddigon yn bresenol.

Dywed Archesgob Whately, "Byddai derbyniad cyffredin o'r enw Cristion, yn wir, i gynnwys llawer sydd yn ymddangos i ni fel yn dal meddyliau gau am Gristionogaeth; er enghraifft, yr Undodiaid. Ond rhaid yw i ni gymmeryd iaith fel ydym yn ei chael * * *. Nid ydym ni yn cael ein cyfiawnhau i wrthod yr enw i Undodwr, ar y tir ei fod yn gwadu yr hyn ydym ni yn ddal sydd athrawiaeth Gristionogol hanfodol."—*Cautions for the Times*, tudalen 498.

Dywed Dr. Arnold, "Y mae Undodwr, fel y cyfryw yn Gristion; hyny yw, os bydd dyn yn canlyn cyfraith Crist, ac yn credu ei eiriau, yn ol ei ystyr gydwybodol ef o'u meddwl, y mae yn Gristion * * . Pwrpas ei galon a'i feddwl i ufuddhau i Grist, a chymmeryd ei arwain ganddo, o ganlyniad y mae yn Gristion."—*Life and Correspondence*, tudalen 299.

Paham gan hyny yr haerir fod yr "Undodiaid yn gwadu Crist?" Fe ateba rhai, "Am nad ydynt yn gweddio arno; yr ydych yn siarad am dano, yn proffesu ei ganlyn, ond nid ydych yn ei addoli." Gwir yw hyn, ond *paham* nad ydym yn ei addoli?

1. O herwydd nad yw Ef yn hawlio, neu yn gofyn hyny, na'i gymmeradwyo. Nid oes yn ei eiriau Ef yr *un* enghraifft yn yr hon y mae yn dywedyd "Gweddiwch arnaf fi." Y mae yn dywedyd wrthym am ddyfod ato Ef i'w efelychu, i'w gyffesu gerbron dynion; ond yn mha le y dywed wrthym am ei addoli? Hyd oni alloch ddangos i ni rai o eiriau Crist yn dywedyd yn amlwg ei fod yn wrthddrych gweddi, nid oes genych yr un hawl i haeru ein bod ni yn ei wadu, oblegyd yr ydym ni yn ufuddhau iddo Ef yn hytrach nag i un athraw arall, gyda golwg ar ein dull o addoli.

2. Oblegyd ei fod Ef yn dweyd yn bennodol am beidio gweddio arno. "Pan weddioch, dywedwch Ein Tad." "Y gwir addolwyr a addolant y Tad." "Yn y dydd hwnw ni ofynwch ddim i mi." "Myfi a weddiaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi ddyddanydd arall." "Y Tad sydd yn fy ngharu i." "Fy Nhad i a'ch Tad chwithau, fy Nuw i a'ch Duw chwithau." Onid bod yn ddysgyblion i Grist yw ufuddhau i'w gyfarwyddiadau amlwg mewn perthynas i'n gweddiau?

3. O herwydd ei fod yn darlunio ei hunan fel un heb fod yn feddiannol ar briodoleddau y Duwdod. Nid yw yn hollalluog. "Ni allaf fi wneuthur dim o honof fy hun." Nid yw yn holl bresenol. "Yr wyf yn myned ymaith—deuaf drachefn." Nid yw yn gwybod am bob peth. "Am y dydd hwnw ni wyr neb, na, nid yw y Mab yn gwybod."

Y mae efe yn gweddio ei hunan; y mae yn siarad am dano ei hunan fel un sydd wedi cael gorchymyn, wedi ei ddanfon, wedi cael ei nerthu, ei ddysgu ac yn ymostwng, ni all gan hyny fod yn oruchaf. Hyd oni ellwch brofi oddiwrth ei eiriau ef ei hun ei fod yn Dduw, ei fod yn dymuno cael ei addoli a'i fod yn feddiannol ar briodoleddau dwyfol, nid oes genych hawl i nodi allan y ffaith o'n bod yn gomedd gweddio arno fel prawf nad ydym ni yn cymmeryd ein dysgu ganddo ef.

Etto, haerir fod yr "Undodiaid yn gwadu eu Iachawdwr, oblegyd nad ydynt yn ymddiried am eu hiachawdwriaeth yn ei haeddiant, ei ddyoddefiadau, ei waed," mewn geiriau ereill, maent yn gwadu yr athrawiaeth iawnffyddol yn nghylch yr Iawn.

Ond yr ydym ni yn gwadu hyny, am nad ydym yn cael hyny yn nysgeidiaeth Crist, am nad ydym yn cael fod Crist yn dysgu hyny. Y mae yn wir yn siarad am "roddi ei einioes yn bridwerth dros lawer." Y mae yn dweyd fod "ei waed wedi cael ei dywallt dros lawer." "Ei fod yn rhoi ei einioes i lawr dros ei ddefaid." Ond nid yw y fath ymadroddion yn golygu dim ond dysgu yn amlwg fod ei farwolaeth i achosi, neu ddwyn bendithion i'w ddysgyblion; y mae yr Undodiaid yn llawenhau pan yn cofio am hyn, ac yn ymdrechu cyfranogi o'r bendithion sydd yn deilliaw oddiwrth ei hunanaberth—i ddwyn dynion at Dduw, nid i gymmodi Duw â dynion, i'n galluogi a'n hannog i weithio allan ein hiachawdwriaeth ein hunain, nid i brynu iachawdwriaeth i ni oddiwrth Dduw, heb un ymdrech o'n tu ni ein hunain. Pan ofynwyd iddo, "Pa beth a wnaf fel y byddwyf gadwedig?" Ni atebodd, "Ymddiriedwch yn fy ngwaed." Nid yw un amser yn siarad yr un gair yn nghylch gwaredu dynion oddiwrth ddigofaint Duw, ond y mae yn siarad bob amser am gariad Duw fel ffynnonell ac achos ei waith ef ar y ddaear; dywed mai ei ddefaid yw y rhai sydd yn gwrando ar ei lais ac yn ei ganlyn; mai y sawl sydd yn gwneuthur ewyllys Duw gaiff fynediad i mewn i deyrnas nefoedd, ac nad yw Duw yn ewyllysio marwolaeth neb; y mae ef yn llafurio i droi a diwygio dynion, ond nid i gyfnewid y Tad mawr, cariad yr Hwn sydd dragywyddol. Y mae credinwyr yn yr Iawn iawnffyddol yn appelio am brawf drosti yn hytrach yn yr Epistolau nag yn yr Efengylau, ac y mae llawer o honynt wedi cyffesu nad yw yn cael ei dysgu gan eiriau yr Iesu ei hunan. Edrychwn am ein hiachawdwriaeth at gariad Duw, nid at waed Crist; yr ydym yn cydnabod gwaith Crist, yr un fath yn ei fywyd a'i farwolaeth, fel peth sydd yn troi dynion oddiwrth eu pechodau, nid i'w galluogi i fyned rhag eu blaen yn eu pechodau, ac etto ddim i ddyoddef o'u plegyd; ac felly trwy gredu yr hyn feddyliwn ni ddysgodd yr Iesu ei hunan ar y pwnc, yr ydym yn wir ddysgyblion iddo.

Unwaith etto, fe ddywedir, "Yr ydych yn gwadu Crist, oblegyd eich bod yn synied am dano ef fel dyn." A oes un Cristion nad yw yn meddwl am dano ef fel dyn? Sylwn ar y ffurf ddynol yn yr hon y mae yn cael ei arddangos yn barhaus i lygaid yr Eglwys Babaidd, ar lun Crist ar y groes, dynoliaeth yn dyoddef hyd angeu. Sylwn ar y cyfeiriadau at ei ddynoliaeth yn y fath lyfrau ag *Ecce Homo*, a llyfrau

ereill mwy diweddar wedi eu hysgrifenu gan eglwyswyr iawnffyddol. Sylwn ar iaith y credöau eu hunain. Ni ellwch ddarllen yr efengylau heb ganfod a chydnabod ei ddynoliaeth, oblegyd yr ydych yn darllen am ei enedigaeth, ei dyfiant, a'i farwolaeth; yno fe ddywedir wrthych iddo fwyta ac yfed, iddo ddiffygio, gorphwys a chysgu, dyoddef, gofidio ac wylo, iddo gael ei wrthwynebu a'i demtio; iddo deimlo tristwch a thywallt dagrau; iddo weddio am nerth Duw, a'i fod yn ymddibynu arno am gymhorth. Y mae pawb Cristionogion gan hyny yn siarad am dano fel dyn, ond mae y Cristion iawnffyddol yn ychwanegu ei fod yn Dduw hefyd. Y mae yr athrawiaeth yma o ddwy natur y mwyaf hunanwrthwynebol, ac o ganlyniad y mwyaf afresymol y gellir dychymygu am dani. Y mae siarad am Grist fel Duw a dyn ar unwaith,—pan y mae yn *suito* i'w alw yn Dduw, a phan yn *suito* i'w alw yn ddyn—yn beth fuasai yn cael ei gondemnio fel yn annheg mewn cyssylltiad ag unrhyw fater arall mewn bywyd cyffredin. Pa sut y gall yr un bôd fod yn Greawdwr ac yn gröedig, danfonwr a danfonedig, y Duw a gynnygiodd weddi, a'r dyn a weddiodd, tragywyddol ac etto wedi ei eni, bob amser yn bodoli ac etto yn marw, yn analluog i gael ei demtio, ac etto yn cael ei demtio, yn annghyfnewidiol ac etto yn cynnyddu; yn yspryd, etto yn weladwy mewn ffurf ddynol? Os yw yn Dduw ni all fod yn ddyn, os yw yn ddyn ni all fod yn Dduw. Y mae yn bossibl dychymygu am dano fel Duw ac nid dyn, neu fel dyn ac nid Duw, ond y mae siarad am dano fel y ddau ar yr un pryd yn beth afresymol: nid yw hyny yn cyfleu yr un meddylddrych. Yn awr pan yn troi at ei ddysgeidiaeth, cyfaddefa pawb ei fod yn siarad yn fynych am dano ei hunan fel dyn; a ydyw yn siarad hefyd am dano ei hunan fel Duw? Nid wyf yn gwybod am un ymadrodd yn y tair efengyl gyntaf yn yr hwn y gellir deall y geiriau felly. Yn y pedwerydd efengyl, y mae tri neu bedwar o destunau sydd yn cael eu dyfynu fel profion o'i Dduwdod, ond nid ydynt o angenrheidrwydd yn dwyn y fath ystyr neu esboniad. Nid oes genych yr un enghraifft yn yr hon y mae yn haeru yn amlwg a diamwys, "Myfi ydwyf Dduw;" y mae genych amrywiol ymadroddion yn y rhai mae yn siarad am dano ei hun fel yn îs nâ Duw; yn ein gwaith yn gwadu ei dduwdod, gan hyny, credwn ein bod yn canlyn ei ddysgeidiaeth amlwg a phendant ei hun.

Am y rhesymau yma gan hyny, er nad ydym yn derbyn nac yn ymostwng i gredöau yr Eglwysi, er nad ydym yn addoli yr Iesu, er nad ydym yn credu athrawiaeth iawnffyddol yr Iawn, etto yr ydym yn hawlio bod yn Gristionogion, dysgyblion Crist, am y credwn am dano ef fel y meddyliwn ni y credai am dano ei hunan, ac yr arddangosai ei hunan, am ein bod yn derbyn fel gwirionedd yr egwyddorion mawrion crefyddol mae yn ddysgu, ac yn neillduol am ei yspryd, ymostyngwn i'w ddylanwad, y canlynwn ei esampl, ac yr ymdrechwn fyw yn ol ei addysgiadau a'i orchymynion.

Wrth derfynu, cynnygiaf hanes fer o sefyllfa nodweddiadol Undodiaid Cristionogol. Meddiannwn gred dduwinyddol amlwg a phennodol; ond nid ydym yn ei gosod allan mewn credo awdurdodol, ond gadawwn i bob dyn i feddwl drosto ef ei hunan, a ffurfio ei gasgliadau

ei hunan. Ond er y rhyddid personol hollol yma, yr ydym wedi dyfod i gytundeb gyda golwg ar sylfaen egwyddorion crefyddol: cytundeb sydd yn ein galluogi ni i addoli yn nghyd, a chydweithredu er taenu ein ffydd, yr hon sydd yn caniatau gwahaniaeth barn ar bynciau bychain, felly y mae pob un o honom yn sicr yn ei feddwl ei hun, ac yn dal ei argyhoeddiadau ei hun. Y mae ein cytundeb o gred wedi tyfu i fyny o fewn, nid wedi cael ei gosod arnom oddiallan, effaith y rhyddid a ganiateir i bob dyn feddwl drosto ei hunan ydyw; wrth feddwl felly, yr ydym wedi dyfod at yr un casgliadau; nid ydym yn ymostwng i gredo allanol heb feddwl ac ymchwilio. Yr ydym oll yn addoli Duw fel Tad cariadlawn, yr ydym yn parchu yr Iesu fel arweinydd ysprydol, credwn mai pechod yw gwae, ac i fod daioni penaf dyn i'w gael mewn agoshau at Dduw, ac mewn undeb gydag Ef. Ar yr un pryd, y mae ein cynnulleidfaoedd ac aelodau unigol yn meddiannu perffaith ryddid. Pa fath o wasanaeth, ffurf o seremoni, neu ddull o addoliad mae unrhyw gynnulleidfa yn dewis mabwysiadu, nid oes ganddynt yr un awdurdod eglwysig i'w galw i gyfrif, nid oes ganddynt i ofyn cenad i'r un esgob, cymmanfa, neu gynnadledd: nid ydynt atebol i ddyn. Nad pa athrawiaeth y mae unrhyw aelod yn ddal i fod yn wir, gall ei phroffesu heb ei gwneyd i ysgwario â chredo ysgrifenedig, un *trust deed* athrawiaethol, unrhyw lyfr neu nifer o erthyglau. Mae y fantais o'r fath ryddid yn amlwg; y mae yn caniatau rhyddid gweithred i bob meddwl, ac y mae yn caniatau cynnydd y fath ag sydd yn anmhossibl i'r sawl sydd wedi eu llyfytheirio gan ffurf o eiriau wedi dyfod i lawr o'r gorphenol, y rhai maent yn rhwym o'u hadrodd pa un a ydynt yn cytuno â hwynt neu beidio. Y mae hefyd yn gwneyd yr addoliad yn fwy tebyg o fod yn yr ysprydac mewn gwirionedd. Mae y sefyllfa yma o ryddid, yr ymddibyniad yma ar argyhoeddiad personol, mewn llawn a chyflawn gydgordiad â dysgeidiaeth Crist, yr hwn nid yw am sefydlu credo mewn un man, ond y *mae* yn gosod pwys mawr iawn ar gariad a phurdeb, ar ddynesiad ysprydol at Dduw, fel nodweddiadau ei ganlynwyr.

Pan ydym yn gwrthod credöau Eglwysig, yn diarddel duwinyddiaeth iawnffyddol, yn protestio yn erbyn y cyfundraethau cul sydd yn curo Cristionogaeth yn hollol gydag un gosodiad o haerdybiau, nid ydym yn dymuno symmud y rhai yma a gosod i fyny yn eu lle gredo arall, cyfundraeth dduwinyddol arall fel rhwymyn undeb gwir ddysgyblaeth. Ond yr hyn ydym ni yn ofyn yw, i ddysgu drosom ein hunain a chynnorthwyo ereill i ddysgu, mai nid credo yw Cristionogaeth ond bywyd, nid haerdyb ond ysprydcariad, rhywbeth sydd yn myned yn ddyfnach nâ'r holl gredöau, ac yn fwy nâ hwynt i gyd, rhywbeth sydd yn bodoli yn yr holl eglwysi Cristionogol ac annibynol arnynt oll, ac mae hyny i'w gael yn mywyd Crist fel esampl, yn ysprydCrist fel ysprydoliaeth, yn ngeiriau Crist fel gwers, ac mae i'w ganlyn Ef ac ymdrechu bod yn debyg iddo, i wrando arno Ef ac ufuddhau iddo, i feddwl am dano a dysgu dan ei ddylanwad allu cariad, prydferthwch, santeiddrwydd, y dedwyddwch o berffaith ymddiriedaeth—*dyma beth yw* yr un peth angenrheidiol.

Y mae y fath grefydd ymarferol, y fath Gristionogaeth fyw, yn cael ei gwerthfawrogi gan bob eglwys Gristionogol a sect, ond rhy fynych y mae yr arferiad i'w chadw yn ol y tu cefn megys gan yr angerdd gyda'r hwn yr amddiffynir credöau neillduol, a dywedir yn fynych fod y sawl sydd yn gwrthod y credöau yma yn gwrthod Cristionogaeth. Yn y gwrthwyneb, dywedwn ni os yw y credöau yn wir dylent gael yr ail le, ac nid y blaenaf. Yr ydym yn annog dynion gan ddywedyd, Gwnewch grefydd y peth blaenaf yn eich golwg, a duwinyddiaeth yn ail; mynwch eich cred, ffurfiwch eich opiniynau, meithrinwch hwynt ac ymdrechwch eu taenu; mynwch hyd y nod gredo lythyrenol os ydych yn meddwl ei bod yn angenrheidiol (nid wyf fi), ond na wnewch yr opiniynau yma, neu y gredo hon fyth yn hanfodol fel arwydd o Gristionogaeth. Na ddywedwch byth na all dynion fod yn frodyr Cristionogol i chwi oddieithr eu bod yn meddwl fel chwi; cydnabyddwch eich bod yn ffacledig, ac i fod gan ereill gymmaint o hawl i'w opiniynau a chwithau; ac o flaen ac uwchlaw pob cred, trysorwch fel y mwyaf gwerthfawr, y ffydd, y gobaith a'r cariad, dysgeidiaeth neu addysgiadau moesol, a dylanwad ysprydol Crist, y rhai y gall y Trindodiaid yn gystal a'r Undodiaid eu meddiannu, a'r rhai a barhänt pa haerdybiau bynag ddichon gyfnewid, pa gredöau bynag fydd i godi a diflanu, yr un yn dragywyddol.

Fel Undodiaid Cristionogol, yr ydym yn prisio yn uchel ein rhyddid, yr hwn sydd yn caniatau i ni gredu yr hyn sydd yn ymddangos i'n meddyliau ni yn wirionedd, ac i addoli yn ol eirchion ein cydwybodau ein hunain, heb ymyraeth oddiwrth ddyn neu rwystrau oddiwrth gredöau dynol; trysorwn a llawenhawn yn yr athrawiaethau ddaliwn sydd wir, a'r rhai mae ein rhyddid wedi ein galluogi i ddyfod o hyd atynt, tadoldeb Duw, brawdoldeb dyn, drwg pechod, y nefoedd o gynnydd ysprydol ac undeb gyda Duw. Mewn modd neillduol yr ydym ni yn llawenhau yn nylanwad Crist, ac yn awyddus felly i gael ein hadnabod a'n cydnabod fel dysgyblion iddo Ef. Y fath ddysgyblaeth ydyw gwreiddyn nerth moesol a duwioldeb gwresog; o dän ei ddylanwad y mae y nwydau digofus a'r teimladau chwerw yn cael eu troi i heddwch a thangnefedd, y mae y rhan isaf o'n natur yn cael ei cheryddu a'i darostwng i ufudd-dod, a'r serchiadau pur yn cael eu codi i gyflawn wres a nerth. Ac y mae y Cristion yn dysgu gan Iesu Grist beth yw gwir natur, a gwir werth, amcan a dyben uwchaf dyn, yn awyddus i gyfranogi o'r presenoldeb dwyfol hyny a sancteiddiodd ei fywyd a'i farwolaeth ef; a chan ymdrechu bod fel efe, mae yn cael allan fod yn y tyfiant yma, neu yn anwahanol gyssylltiedig ag ef, reswm byth gynnyddol i'w gofio ef gyda diolchgarwch a chariad. Felly yn credu yn yr Iesu—nid yn däl rhyw haerdyb yn ei gylch, ond yn teimlo ei allu a'i yspryd—ni a fyddwn yn ddysgyblion iddo Ef yn wir. O na byddai pawb sydd yn cyfranogi o'r profiad yma, nad beth fyddo eu hopiniynau gwahanol, yn gallu cydnabod eu gilydd fel brodyr, ac yna, er y dichon y bydd yn aros lawer o gredöau, amryw syniadau ac amryw o wahaniaethau mewn duwinyddiaeth * * *
"bydd un gorlan dan un bugail." Z.

YMPRYD Y GRAWYS.

(*Parhad o tudalen* 42.)

CANLYNIAD y fath ymborth-res oedd cynnyrchiad clefydau a elwir yn boethglefrog neu grachlyd. Yr oedd y llwg (*scurvy*) yn agos mor gyffredin y pryd hwnw ar dir ag yr oedd ar for; a phan yr oedd dynesiad y gwanwyn yn dwyn tyfiant cwta o lysiau, cawsent eu difa yn wancus. Yn yr ardaloedd a enwyd uchod, y mae yn arferol, yn y dyddiau presenol, i gasglu blagur y danadl, surai y gôg, a math o bigoglys gwyllt (*spinach*) a elwir hamau'r Pasc, y rhai a dyfant mewn perllanau a dolydd gwasgodawl, yn nghyda phlanigion llydan-ddeiliog a diberygl ereill, mor gynar ag yr ymddangosant yn y gwanwyn. Detholid hwy yn ofalus, a briwid hwy gydag haidd; yna dodid hwy i ferwi gyda chig mewn crochan. Gelwid hyn yn "boten lysiau," a gwnai fwyd blasus ddigon. Bwyteir ef yn y dyddiau hyn gan ddynion hen-ffasiwn, a dalir ei fod yn medlu priodoleddau gwrth-grachlyd cryfion. Y mae y fath lysiau, yn nghyda llaeth a wyau, yn ffurfio cyfnewidiad tra dymunol a iechydol o ymborth ar ol teyrnasiad hir y darpariaethau halltedig. Drwy'r fath foddion yr oedd amrywiol glefydau y croen yn cael eu symmud ymaith yn gyflym. Yn wir, mor amlwg oedd yr effaith ar iechyd, fel yr achosodd y dyb boblogaidd fod y gwaed yn cyfnewid yn y gwanwyn a'r hydref. Gan lawer o ddynion mewn amserau diweddar, yr oedd yn arferiad, fel mesur ceidwadol, i gael eu gwaedu yn y tymhorau hyn. Mewn gwirionedd, yr oedd y gwaedu dychweliadol yma, yn enwedig yn y gwanwyn, yn cael ei ystyried yn anhebgorol i iechyd.

Tebyg yw nad oes ond nemawr iawn o'r rhai a giniawant yn dduwiolfrydus ar bysgod hallt a blesyn-wyau (*egg sauce*) ar ddydd Mercher y Lludw ac ar bob Gwener trwy'r Grawys, yn edrych ar y luniaeth-res hyn ond yn unig fel rheol grefyddol; etto yr oedd, unwaith, ymborth-res gyfyngedig y Grawys a'r ymattaliad oddiwrth gig yn fesur iechydol o werth. Gan fod cig a gwin yn cryfhau doluriau ymdorol (*eruptive*), yr oedd ymattal oddiwrthynt mor ddefnyddiol ag oedd ymborthi ar lysiau i ddynion y canol oesoedd. Yr oedd y cyfwng hwn o ympryd rhwng gloddestau y Nadolig a gwledd y Pasc yn drefniad iechydol rhagorol, er efallai nad oedd yn cael ei ystyried felly. Y mae diwedd neu doriad i fyny yr ympryd yn awr mewn ardaloedd gwledig yn cael ei nodi trwy fod y plant, ar brydnawnau Sul a Llun y Pasc, yn troi allan i daflu a threiglo eu "wyau Pasc" mewn ymdrechiadau hoenus. Mae'r wyau hyn wedi eu lliwio, wrth ferwi, â lliwiau amrywiol, yn neilldnol â lliw melyn-clir blodau'r eithin. Ceir hwynt yn benaf trwy fod plant y pentrefwyr yn talu ymweliad o dŷ i dŷ dan ganu hen emynau. Ystyrir hi yn anmhriodol i fwyta yr wyau, hyd y nod y rhai a agenir wrth ferwi, cyn y Pasc; ond bwyteir hwynt yn fuan ar ol hyny yn nghyd ag eur-afalau. Hyd yn ddiweddar gellid gweled (a dichon y gellir etto weled) plant pentrefi pellenig ar y prydnawnau uchod wedi eu llwytho â wyau rhan-liwiedig ac eur-afalau, yn cyfeirio

eu camrau tua rhyw ddolydd dewisol, ac yno yn taflu eu wyau a'u heur-afalau, tra mae'r henafgwyr wrth ryw orchwyl arall, neu yn foddhaol edrych arnynt yn y pellder. Y cyfryw ydynt olion gwledd y Pasc ar ol ympryd y Grawys. Yn ardaloedd pellenig y mynyddau, lle yr oedd yr amaethwyr hyd yn ddiweddar yn byw drwy'r gauaf ar ddarpariaethau halltedig yn benaf, yr oedd clefydau croenol yn aml yn y gwanwyn; o leiaf, yr oeddynt yn ddigon felly i roddi i ni ddrychfeddwl o'r hyn a fu unwaith yn gyffwr cyffredin, yn uchel alw am y cyfnewidiad hyny yn yr ymborth-res a adnabyddir fel ympryd y Grawys.

Cyf. W. B., *allan o'r "Sanitary Record."*

GARDD Y BRENIN.

(CYFLWYNEDIG I BLANT.)

Yr oedd gan frenin unwaith ardd brydferth; yr oedd yn llawn o flodau dymunol eu harogl, a choed yn llawn ffrwythau. Tyfai pob math o lysiau defnyddiol a llesiol ynddi, a choed llysiau meddygol hefyd ar ei chyffiniau, ac o dan ei gwelydd uchel.

Rhanodd y brenin yr ardd yma rhwng llawer o arddwyr, ac yna aeth ymaith i ofalu am oruchwylion ei deyrnas. Yn awr dygwyddai fod gan ddyn cryf a bachgen gwanaidd, y ddau ddarn nesaf at eu gilydd, felly yr oeddynt yn gweithio ochr yn ochr, heb fod dim yn eu gwahanu ond perth o rosynau gwynion. Yr oedd gan y dyn ddarn helaeth iawn, ond nid oedd gan y bachgen ond darn bychan i'w wrteithio; etto yr oedd yn beth hynod i sylwi pa mor wahanol oeddynt yn ymgymmeryd a'u gwaith.

Yn y boreu yr oedd y bachgen yn ddiwyd iawn am ychydig amser, a thynai i fyny ychydig chwyn, a thaflai hwynt oll ar gornel ei wely blodau, yna gorweddai i lawr dan gysgod pren ac aethai i gysgu. Pan ddihunai, cawsai, yn gyffredin, fod y dydd ar derfynu, fel nad oedd ganddo ddim ond amser i ddyfrhau ei blanhigion, ac i osod ei offer o'r neilldu cyn buasai yr haul yn machludo. Dranoeth aethai i ran arall o'i ddarn tir, a dechreuai adeiladu deil-dŷ yno, gan feddwl y buasai yn lle mwy dymunol i lechu ynddo na than y goeden, a thros amryw ddiwrnodau bu mor ddiwyd yn adeiladu y deil-dŷ, fel yr annghofiai yn llwyr ei wely blodau; ac yn y diwedd pan aeth ato cafodd fod y gwynt wedi hau holl hadau y chwyn oedd wedi eu tynu allan o blith ei flodau, a gorfu iddo weithio yn galed i'w tynu i fyny drachefn. Felly yr aethai rhag ei flaen, o ddydd i ddydd, a thyfai ei ardd yn fwy tebyg i anialwch nag i ddim arall.

Ond gweithredai y dyn yn hollol wahanol. Edrychai ar un rhan o'i ardd bob dydd, a dosparthai ei amser yn rheolaidd a phennodol fel nad esgeulusai yr un planhigyn na choeden ynddi. Wedi tynu allan y chwyn cariai hwynt ymaith yn uniongyrchol fel na byddai i'r hadau

gael eu chwythu yn ol; ac, er y saethai chwyn newydd i fyny yn fynych, dadwreiddai hwynt yn y man; felly yr oedd ychydig fynydau bob dydd yn ddigon i'w cadw dan law. Gwyddai enw ac *use* pob planhigyn, a gofalai wrteithio pob un o honynt a'i wneuthur mor hardd ag y medrai, oblegyd mynych y dywedai wrtho ei hunan, "Pan ddaw fy arglwydd yn ol, ac ymofyn am ffrwythau, llysiau a blodau, ni wn i ddim pa un o honynt fydd yn ofyn am dano; felly mae yn rhaid i mi eu cael *all* yn barod iddo." Gweithiai yn ddyfal er fod yr haul yn boeth a'r ystormydd a'r gwlawogydd yn curo yn ei erbyn. Ar rai prydiau yn y boreu, cawsai fod yr ystorom wedi chwythu un o'i blanhigion i lawr, yna codai ei ben a chylymai ef wrth bren i'w ddal i fyny, ac ar rai prydiau sisialai wrtho, "Edrych i fyny yr un bach; rhaid yw i ti beidio marw, o herwydd y mae yn rhaid i'r Arglwydd wrthyt."

Un diwrnod yr oedd y bachgen yn chwareu yn lle gweithio, a dringai i fyny i'r wal uchel a amgylchynai yr ardd, pan syrthiodd i lawr ac y torodd ei fraich, a doluriodd ei hunan yn fawr iawn heblaw. Bu yn sal am amser maith; ond pan ddaethai ychydig yn well, ni hoffai ddim cymmaint ag eistedd allan yn yr ardd a gwylied ei gyfaill, y dyn, wrth ei waith. Teimlai yn gywilyddgar a thrist pan welai pa mor ddiwrtaith a llawn o chwyn oedd ei ddarn ef. Arferai y dyn ddwyn blodau ato a'u darllen iddo. Dywedai fod pob un o honynt yn ateb rhyw bwrpas da. Synai y bachgen pan gafodd allan y gallesid defnyddio y mwyaf gwenwynig o honynt fel meddyginiaeth; ac i fod hyd y nod yn yr hadau ryw beth defnyddiol a llesiol, felly cadwai y garddwr un o bob math, a phob un yn ei le priodol yn ei ardd.

Yna gofynodd y bachgen i'w gyfaill pa un ai buasai yn gosod ei ddarn tir ef mewn trefn neu beidio. Dywedodd y garddwr na allasai efe ddim gwneyd hyny; oblegyd fod y brenin wedi rhoddi i bob un o'i arddwyr waith gwahanol, ac nad oedd yn bossibl i un wneyd gwaith un arall. Yna edrychai yn garedig ar y bachgen bychan, a dywedodd, "Cofia, fy mab, fod yn rhaid i'r arglwydd wrthyt ti, a'i fod yn gofyn am y blodau mae wedi roddi i'th ofal."

Yn fuan daeth y bachgen yn gryfach, a gallnog i weithio ychydig; ymdrechodd yn galed i wneyd i fyny am ei ddiogi a'i ddiofalwch blaenorol, ac yn awr, er ei fod yn fynych yn lluddiedig, teimlai serch hyny ddyddordeb newydd yn ei waith, a dymunol iawn oedd gweled ei ddarn bychan yn dyfod yn fwy hardd bob dydd a mwy llawn o flodau. Yn mhlith y planigion wrth gefn ei ardd, yr oedd un pren draenen garw, a meddyliai y bachgen mai y peth goreu allasai wneyd ag ef oedd ei dori i lawr, ond dywedodd y dyn wrtho am ei docio a'i gadw yn ei le a'i gyflwr priodol, ac ar un diwrnod, efallai, y buasai yn blaguro. Un boreu cafodd allan blanhigyn newydd nad oedd wedi weled erioed o'r blaen. Rhyw lili gwyn prydferth oedd: gwyliodd a gofalodd am dano mewn modd priodol, ac yna blodeuodd, a daeth y garddwyr ereill i edrych arno, a dymunai pob un o honynt pe buasai wedi tyfu i fyny yn eu darnau hwynt. Ond dywedodd y garddwr da wrth ei gyfaill bychan, "Oni ddywedais i wrthyt y buaset yn cael allan rhyw ddiwrnod fod yn rhaid i'r arglwydd wrthyt ti a'th ardd?"

Yn mhen ychydig ddiwrnodau daeth y brenin i edrych ar ei ardd, a phan welodd ddarn y bachgen bychan, dywedodd, "Y mae yna ddau blanhigyn sydd yn rhaid i ti eu dwyn i mi; un yw y lili deg a gwyn, a'r llall yw y ddraenen sydd yn llawn blodau. Casglodd y bachgen y cyfryw ac aeth â hwynt i'r brenin, yr hwn a wenodd arno, ac a ddywedodd,—"Yr ydych yn ieuanc ac yn wan, etto y mae yn rhaid i mi wrthych." A chymmerodd y brenin ef i'w balas.

GWERS.

Duw yw eich Brenin, a chwi oll ydych ei arddwyr. Y mae yn rhoddi i bob un o honoch ddarn o dir i'w wrteithio iddo Ef. Yr ardd mai wedi rhoddi i chwi ydyw eich calonau eich hunain, eich cymmeriad eich hunain. Yr ydych i gymmeryd gofal mawr na byddo dim chwyn yn tyfu i fyny; yr ydych i wylied, gofalu am, a gwella pob talent a phob rhywogaeth dda sydd yn tyfu i fyny yn nhir eich calon. Ond os na fydd i chwi feddwl am ddim ond difyru eich hunain, fel y gwnaeth y bachgen yma unwaith, a gomedd cyflawni eich dyledswydd, cewch allan yn fuan y bydd eich calonau yn llawn chwyn a phethau diwerth, ac na fydd genych ddim blodau a ffrwythau i gynnyg i Dduw, pan y gofyna i chwi beth ydych wedi wneyd a'ch bywyd. Y mae y Tad nefol yn rhoddi cyfleusderau i chwi i'w wasanaethu, ond os ydych wedi bod yn ddiofal a segur, ni fyddwch allwog i'w wasanaethu pan ddel amser cyfrif. Ni allasai un o'r garddwyr ereill osod gardd y bachgen mewn trefn o herwydd fod ganddynt eu gwaith eu hunain i'w gyflawni, felly gyda golwg arnoch chwithau, os ydych am fod yn gymmeradwy gan Dduw, angenrhaid yw i chwi "weithio allan eich iachawdwriaeth eich *hunain*, trwy ofn a dychryn." Gall [illegible] ill ddangos i chwi pa fodd i ddyfod yn dda, fel y dangosodd y g[illegible] y bachgen i wrteithio ei ardd, ond y mae yn rhaid i chwi, yn [illegible] -gol, wneyd y gwaith. Mae y ddraenen arw fel tymher wyllt, yr hon sydd arw a llym, etto nid oes achos i chwi ei thori lawr yn llwyr, ond yn unig ei glanhau a'i thocio, a'i chadw dan reolaeth cydwybod, a gall hyd y nod i dymher wyllt ddwyn blodau. Y mae y lili fel math o ras mwyn ac amyneddgar, yr hwn y mae Duw yn ei roddi yn fynych i'r sawl sydd yn ymdrechu ei wasanaethu, ac i gyflawni ei dyledswyddau, pa mor ddibwys bynag yr ymddangosant. Nac annghofiwch un amser fod Duw wedi rhoddi ei waith pennodol i bob un o honoch, ac na all neb arall ei gyflawni, ac er eich bod yn rhy ieuanc i wneyd rhyw lawer iawn o hono, etto, "Y mae yn rhaid i'r Arglwydd wrthych." L.

YR HELBUL YN LLWYNRHYDOWEN.

Darfu i ni gyfeirio yn fyr yn ein rhifyn diweddaf at gynnyg caredig y Parch. David Davis, B.A., o Lancaster, ŵyr yr hen fardd o Giliau a Chastellhywel, i gyfryngu, os yn bossibl, rhwng cynnulleidfa y Llwyn a Mr. John Davies Lloyd, o Alltyrodin. Apelio yn foneddigaidd a brawdol a fwriadai Mr. Davis at y boneddwr, ar sail yr adnabydd-

iaeth a'r gymdeithas gyntefig rhwng tadau y blaenaf â Mr. David Lloyd, rhoddwr prydles 1781.

Gyda llaw, dichon nad annerbyniol fyddai y daflen fechan a ganlyn yn dangos llinach y Llwydiaid am y can mlynedd diweddaf yn ei pherthynas a'r etifedd presenol :—

(1.) David Lloyd, *rhoddwr prydles* 1781
|
(2.) John Lloyd, (" *Llwyd Coch* ") *yr hwn a fu farw yn ddiepil.*
(Mrs. John Lloyd Davies, ei gyfnither a'i canlynodd ef yn yr etifeddiaeth.)

(3.) John Lloyd, *brawd rhoddwr y prydles.*
|
(4.) Mrs. John Lloyd Davies.
|
(5.) Arthur Davies Lloyd.
|
(6.) John Davies Lloyd, *yr etifedd presenol.*

Mae yn nghof ein darllenwyr i ddirprwyaeth yn cael ei gwneyd i fyny o dri o bersonau o gynnulleidfa y Llwyn, sef Meistri. David Thomas, Rhydowen Shop, Thos. Humphreys, Gwehydd, Penlon, ac Evan Jones, Melin Rhydowen, yn nghyd a dau weinidog parchus o'r gymmnydogaeth, sef y Parchn. David Evans, B.A., Maesymeillion, un o gyn-weinidogion y Llwyn, a John Davies, Alltyplaca, i gael eu pennodi i alw ar Mr. J. D. Lloyd, yr hwn a ddygwyddai fod yn aros ar y pryd am ychydig ddiwrnodau yn y gwesty gyferbyn a'r hen gapel. Cais y ddirprwyaeth hon oedd am ganiatad i'r gynnulleidfa i gael cwrdd i addoli yn y capel am ryw gymmaint o amser nes gellid gwybod pa beth i'w wneyd a pha le i droi. Yr oedd wedi ei happwyntio gan y pwyllgor lluosog a dylanwadol o aelodau a chyfeillion a wnaethent ymgasglu yn Llandyssul, dydd Iau yr 2il o Dachwedd, sef ychydig o ddyddiau ar ol rhybuddion (*notices*) rhyfedd Sadwrn yr 28ain o Hydref, a'r tróad allan i'r brif ffordd agored, dranoeth y 29ain o'r un mis. Os buasai y ddirprwyaeth yn aflwyddiannus yn ei hamcan, yr oedd y pwyllgor wedi pasio yn unfrydol eu bod i gymmeryd llecyn bychan o dir yn ymyl y ffordd fawr ger pont Rhydowen, a adnabyddid wrth yr enw " Eisin-grug " neu " Shingrug " ar *rent* oddiwrth Mr. Evan Jones o'r Felin. Profodd hyn yn rhagddarpariaeth ddedwydd, oblegyd pan alwodd y ddirprwyaeth ar Mr. J. D. Lloyd nos Iau, ni welodd yn dda adael iddynt ymddyddan ag ef. Gwnaed cynnyg arall i'w weled bore dranoeth, pan y gosodwyd y cais ger ei fron, ond ni fuwyd ddim yn well. Yr oedd ei nacad nid yn unig yn bendant, ond o nodwedd i gael ei ddesgrifio mewn iaith na charem ni, yn wir a deimlir yn rhy boenus genym, ei defnyddio yn y colofnau hyn.

Ar y 5ed o Dachwedd y bu yr ail gyfarfod yn yr awyr agored, ac yr oedd os dim yn fwy lluosog nâ'r un ar y Sul blaenorol. Yr oedd gohebwyr neillduol y *South Wales Daily News* a'r *Western Mail* yn wyddfodol; a dranoeth darfu i'r papyr olaf ragori arno ei hun mewn bwrw allan yr ensyniadau bryntaf a bytheirio y ddifriaeth fwyaf sâl ac isel yn erbyn pobl y Llwyn a'u gweinidog. Yr oedd y gohebydd,

fel y mae yn naturiol casglu, wedi ei *brimo* hyd yr ymylon o gelwyddau wedi eu deor a'u dyfeisio gan yr offer (*tools*) gwael hyny ag y bernir eu bod am gryn amser wedi bod yn hysian Mr. J. D. Lloyd, neu o leiaf ei gyfrifol oruchwyliwr Mr. J. M. Allen, i gymmeryd y cam gwallgof a hunanddinystriol ag a wnaeth. Daeth llawer o lythyron i law yn annog y gweinidog i erlyn y *Western Mail* am gabledd; ond gwrthododd wneyd er ei fod wedi ei hyspysu fod copi o'r erthygl ddywededig wedi ei gyru gyda'r post i brif Undodiaid y Deyrnas Gyfunol gyda'r dyben o'i niweidio ef a'i bobl. Ond y mae yn well i ni gael ein difenwi na difenwi. "Asgre lân, dyogel ei pherchen."

Y Sul hwnw, Tachwedd y 5ed, ar ddiwedd y gwasanaeth boreuol, agorwyd trysorfa at brynu tir a chodi capel newydd; ac yn y fan, mewn ychydig funydau, heb rybudd blaenorol o un math, a hyny gan bobl ag oeddynt gan mwyaf yn dlodion yn mhethau'r byd, addawyd £312 19s. 6c., a chyn nos, yr oedd yr addewidion wedi cyrhaedd £370; ac o'r dydd hwnw hyd yn hyn dangoswyd rhyw gydymdeimlad neillduol a hen eglwys y Llwyn yn ei helbul blin. Nid oedd braidd bost yn dyfod heb lythyron yn amlygu diglionedd cyfiawn at y troad allan, a fynychaf yn cynnwys *cheque* neu *post office order*, neu lythyr-nodau neu addewid i gael ei thalu pan ddechreuid adeiladu. Yn mlaen yr aeth y drysorfa o wythnos i wythnos: ffrwd fechan yn awr, dyferynau brydiau ereill, nes erbyn heddyw mae wedi cyrhaedd y swm o £1762 9s. 8c. Oud mwy rhyfedd na maint y swm at gapel newydd mewn goror bellenig o hyd y nod Cymru ei hun ar ryw olwg, yw y manau o'r rhai y mae'r arian wedi dylifo i mewn. Mae uchel ac isel wedi rhoi. Mae aelodau seneddol, ynadon heddwch, bargyfreithwyr, arolygwyr ysgolion ei Mawrhydi, *bankers*, tirfeddianwyr, mysyrwyr; mae masnachwyr Lerpwl, Birmingham, Manchester, Sheffield a Bryste wedi rhoi. Mae y gwahanol enwadau, o Eglwys Loegr, (sef o'r dosparth hwnw o'i haelodau a garant ryddid gwladol a chrefyddol, ac nid o'r dosparth sur a chul a chilwgus o'i meibion, o ba un y ceir rhai, er ysywaeth, yn gwisgo urddau santaidd, a fedrant ddweyd gyda hysiad sarffaidd am y rhai a drowyd allan: *Serve them right*;) o Eglwys Loegr i lawr, neu i fyny fel y cyfrifer hi, at sect anrhydeddus y Crynwyr—maent wedi rhoi. Yr Independiaid sy' wedi bod ar y blaen, ond nid yw y Trefnyddion, Bedyddwyr na'r Wesleyaid wedi anghofio eu brodyr mewn caledi, ac yn ol ei arfer haelionus mae y boneddwr o Landinam wedi danfon y rhodd dywysogaidd o ugain punt, a chyda hyny lythyr gwerth ei argraffu mewn llythyrenau o aur. Mae Independiaid ardaloedd Llanboidy, Llanfyrnach a Threlech wedi bod yn enwog am eu ffyddlondeb.

Buasid yn ddiau wedi cael cryn gymmaint yn rhagor oni bai fod pob un yn rhy barod i feddwl fod pob un arall yn rhwym o fod yn rhoi llawer. Mae y cri etto am ragor fel y galler sicrhau fod i'r capel newydd gael ei agor yn ddiddyled.

Daeth y tŷ coed yn barod i addoli ynddo erbyn y Sul o flaen y Nadolig (Rhag. 21), a hyny yn ddiau trwy gydymdrech, a bywiogrwydd, a glewder y pwyllgor adeiladu, yn nghyd a'r crefftwyr hylaw a

gafwyd i gario yn mlaen y gwaith. Etto nid "dinas barhaus," er yn "ddinas noddfa," y bwriedid i'r tŷ coed fod. Bu yn dda iawn ei fod er hyny ar Suliau oer a gwlyb y gauaf. Ond drylliog i'r eithaf i deimladau, yn enwedig yr hen addolwyr henaf, oedd sefyll mewn lle mor hynod, o dan amgylchiadau mor drist. Braidd na chodai ar eu gwefusau yr hen gwyn, "Pa fodd y canwn gerdd i'r Arglwydd mewn gwlad ddyeithr"—mewn man dyeithr?

Gwyr ein darllenwyr fod hanner erw o dir wedi ei brynu, rhan o etifeddiaeth fechan Gelliaur, ac ar hwn yr ydys yn awr yn parotoi i adeiladu. Mae yn ysmotyn prydferth a gwynebol dros ben, yn edrych tua'r de, ac yn cael ei fritho gan *cowslips* a briallu, ac nid yw yr haul yn ei adael er y codo yn y bore hyd y machludo yn y prydnawn. Mae ychydig o godiad yn y tir, ac y mae ar ochr y brif ffordd o Bencader i Ceinewydd ac Aberaeron, ryw chwarter milldir o hen gapel y Llwyn.

Yn ystod y gauaf yr oedd y tywydd yn rhy anffafriol i allu gwneyd dim at adeiladu y capel newydd. Ond gyda gwyneb blwyddyn, teimlid fod yr amser wedi dod i gychwyn yn mlaen. Yr oedd y tir wedi ei brynu, a swm dda o arian mewn llaw. Etto cyn dechreu ar y fath anturiaeth bwysig, yr oedd y rhan fwyaf, os nid yr oll o'r gynnulleidfa, yn chwenych gwneuthur ail apel,a hono yr un ddiweddol, at Mr. J. D. Lloyd. Os gellid, ar yr awr ddiweddaf, i gael adfeddiant o'r hen gapel a'r hen gladdfa ar unrhyw delerau rhesymol, ac anrhydeddus, a dyogel, teimlid ei bod yn werth aberthu rhan o'r teimlad o ddiglloned at y weithred anfad tuag at sicrhau y fath nod. Dywedai hwn a'r llall, "Pwy a wyr na lwyddwch? Mae y boneddwr wedi cael chwe mis o amser i gnoi ei gydwybod. Nid yw yn debyg y bydd yr hen gapel na'r fynwent byth yn werth dimai y flwyddyn iddo ef, ond byddent o werth mawr i chwi. Gwnewch gynnyg etto. Na adewch gareg heb ei throi. *Stoop to conquer*, os gellwch goncro hefyd." Penderfynodd y pwyllgor, fel y nodwyd eisoes, trwy gyfrwng y Parch. D. Davis, B.A., o Lancaster, i wneyd y cynnyg olaf hwn i agor ymdrafodaeth a'r boneddwr. Nis gallesid cael neb, debygid, yn fwy cymhwys na Mr. Davis. Yr oedd dirprwyaeth gartrefol wedi methu llwyddo. Buasai Mr. Davis yn ffurfio dirprwyaeth o ychydig o'r gwyr da* mwyaf cyfrifol gyda'r Undodiaid yn Lloegr i alw gydag ef ar Mr. J. D. Lloyd. Tebyg y buasai y personau a ganlyn yn mhlith ereill yn aelodau o'r ddirprwyaeth:—Meistri David Ainsworth, Wray Castle, tirfeddianwr helaeth yn Cumberland, a mab Mr. Thos. Ainsworth, o'r Flosh, yr hwn a gyfranodd £100 at y drysorfa; Herbert New, o Evesham; James Hopgood, o Lundain; W. P. Price, y diweddar M.P. dros Gloucester; a'r Parch. Henry Ierson, M.A., Ysgrifenydd y *British and Foreign Unitarian Association*. Ond ni wiw cyfrif y cywion cyn y b'ont allan o'r plisg. Yr oedd cam arweiniol o bwys i'w gymmeryd cyn y gallesid gwneyd dim; yr oedd yn rhaid cael caniatad Mr. J. D. Lloyd i'r cyfryw ddirprwy-

* Hyn oedd syniad cyntaf Mr. Davis. Yn ddiweddarach, ymddengys mai rhyw un cyfaill dylanwadol, fel y gwelir oddiwrth ei lythyr, a fwriadai gymmeryd gydag ef.

aeth i gael galw arno, a gorphwysai arno ef, os yn foddlawn, i bennodi y lle a'r amser.

Ysgrifenodd Mr. Davis i Alltyrodin Mawrth y 9fed, ond ni wnaeth Mr. J. D. Lloyd ateb y llythyr hwn. Danfonodd Mr. Davis ail lythyr, dyddiedig Mawrth y 24ain, yn amblygu ei lythyr cyntaf, a darfu i negesydd arbenig alw gyda'r ddau lythyr i wneyd ymgais i'w rhoi yn nwylaw y boneddwr ei hun. Llwyddodd y genad yn hyn Ebrill y 4ydd, a darllenodd Mr. J. D. Lloyd y ddau lythyr yn mhresenoldeb y genad. Etto ni ddaeth atebiad hyd, fel y gwelir, yr 11eg o Ebrill. Ac yn awr ni a osodwn y llythyron o flaen ein darllenwyr, air a gair, fel y maent, wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg.

DAU LYTHYR Y PARCH. D. DAVIS, B.A., LANCASTER, AT JOHN DAVIES LLOYD, YSW., ALLTYRODIN.

"Queen Square, Lancaster, Mawrth 9, 1877.

"Anwyl Syr,—Yr wyf yn ysgrifenu, fel ŵyr y Parch. David Davis, o Gastellhywel, yn y gobaith o dawyn o amgylch ryw derfyniad cyfeillgar i'r camddealldwriaethau y rhai ydynt wedi codi mewn cyssylltiad â chapel Llwynrhydowen. Cymmeraf yn ganiataol fel ffaith fod y cyfryw gamddealldwriaethau wedi cael eu tarddiad yn eich absenoldeb chwi, ac fe'm hyspysir eich bod yn awr am y waith gyntaf yn ymsefydlu yn nghartref eich tadau. Yr wyf fi gan hyny yn beiddio gofyn i chwi y ffafr o ymddyddan personol, yn ystod pa un y gellid ymdrin â materion, a'u hegluro, mewn dull anmhossibl mewn un ffordd arall. Bydd yn bleser genyf i alw arnoch yn Alltyrodin gyda ffrynd heb yr un cyssylltiad rhyngddo a'ch cymmydogaeth chwi, ar unrhyw ddiwrnod dichonadwy y bo i chwi ei enwi. Nid wyf yn ysgrifenu yn hollol fel dyn dyeithr. Nis gallwn wneyd hyny at gynnrychiolydd presenol teulu â'r hwn y mae rhagor nag un genedlaeth o fy nheulu inau wedi bod ar delerau o gyfeillgarwch, ac un y mae crybwyllion anrhydeddus a diolchgar am dano yn codi i fyny yn mhlith fy adgofion boreuaf.—Gorphwysaf, anwyl Syr, yr eiddoch yn gywir,

"John Davies Lloyd, Ysw., Alltyrodin. DAVID DAVIS."

"Queen Square, Lancaster, Mawrth 24, 1877.

"Anwyl Syr,—Cyfarwyddais atoch ar y 9fed cyfisol lythyr, yr hwn, gan nad wyf wedi derbyn ateb, nis gall fod wedi dyfod i'ch dwylaw, ac o'r hwn yr wyf yn amblygu copi. Gallaf ychwanegu fod Pwyllgor y gynnulleidfa wedi derbyn cynnyg a wnes i apelio atoch, ac wedi fy awdurdodi i weithredu drostynt.—Yn gywir yr eiddoch,

"J. D. Lloyd, Ysw. DAVID DAVIS."

ATEB MR. JOHN DAVIES LLOYD TRWY EI ORUCHWYLIWR, MR. J. MASON ALLEN.

"1, John St., Bedford Row, Llundain, W.C., Ebrill 11, 1877.

"Syr,—Mae Capten John Davies Lloyd, Alltyrodin, fy ymgynghorwr*, wedi rhoi yn fy llaw eich llythyrau dyddiedig y 9fed a'r 24ain o'r mis hwn† gyda chyfarwyddiadau i mi i gydnabod yr unrhyw ac i ddweyd *na chafodd* y "camddealldwriaethau" y cyfeiriwch chwi atynt eu tarddiad yn ei absenoldeb ef, a'i fod ef yn gwrthod yr anrhydedd o'r ymddyddan personol a awgrymir genych chwi, yn union yr un modd ag y gwrthyd bob dull a modd o ymdrafodaeth â phobl o'r fath ag yw gweinidog a "phwyllgor" y gynnulleidfa dros ba un y dywedwch eich bod wedi eich awdurdodi

---

* "My Client."

† Mae y goreu yn tripio weithiau. Gan fod Mr. Allen yn ysgrifenu ar yr 11eg o Ebrill nis gallai fod wedi derbyn llythyr wedi ei ysgrifenu ar y 24ain o'r mis hwnw. Tebyg gan hyny mai y 9fed a'r 24ain o'r mis blaenorol (Mawrth) a olygai. Wedi y cwbl, nid yw y dyddiad yn cyffwrdd dim a sylwedd ac egwyddor a thon y llythyr.

i weithredu. Y maent hwy ar ol cael allan nad oedd Capten Lloyd i'w droi o gwrs yr ystyriai ef hi yn briodol i'w fabwysiadu drwy yr enllib a'r ddifriaeth y rhai a anelasant yn ei erbyn ef a minau yn ei hystyried yn fantais i fod yn foesgar (*civil*), a dodi un i gyfryngu.

"Dymuna Capten Davies Lloyd arnaf i geisio genych, os bydd unrhyw ohebiaeth bellach ar y mater, i gyfeirio yr unrhyw at—Eich ufudd was,

"David Davies, Ysw., Queen Square, Lancaster. J. MASON ALLEN."

Dyna yr oll o'r ohebiaeth hon, oddieithr fod Mr. Davis gyda'i fon-eddigeiddrwydd arferol wedi ysgrifenu i ofyn i Mr. J. M. Allen, os oedd ganddo wrthwynebiad i'w lythyr gael ei gyhoeddi, i wneyd hyny yn hyspys. Nid yw wedi amlygu fod un gwrthwynebiad ganddo. Gadawn i don ac yspryd y llythyr uchod i siarad drosto ei hun. Nis gwnawn ond sylwi ar ryw dri pheth y mae yn eu cynnwys: (1.) Mae Capten J. D. Lloyd yn llwyr ymgymmeryd a holl gyfrifoldeb y troad allan. Arferid ei amddiffyn ef gyda'r dybiaeth ei fod wedi ei gamarwain, neu fod pethau yn cael eu cyflawni yn ei enw na fuasai ef o hono ei hun yn eu harddel nac yn cymmeryd clod oddiwrthynt. (2.) Dyma derfyn ar bob ymdrafodaeth bellach gyda golwg ar yr hen gapel. Mae y garreg olaf wedi ei throi, a'r apel olaf wedi ei gwneyd. Boed y can-lyniadau mwy i orphwys ar y rhai a fuont y prif weithredwyr yn y troad allan. Mae dwylaw eglwys a gweinidog y Llwyn yn lan. (3.) Gyda golwg ar "yr enllib a'r ddifriaeth" a enwir yn y llythyr, nid oes neb o'r pwyllgor yn deall at ba beth y ceisir gwneyd cyfeiriad. Ac ni thybir ei bod hi yn debyg o ateb un dybeu teilwng i ymholi i ystyr y fath ensyniadau dibwynt (*vague*).

Ar ol i lythyr Mr. Allen roi terfyn ar bob dysgwyliad am ail berchenogaeth o'r hen gapel, cyfarfu y pwyllgor, yn nghyd a llawer o aelodau y Llwyn, dydd Sadwrn, Mai 5, ar y darn tir a brynesid, pan y buwyd yn ei fesur, ac yn ei farcio allan, ac yn penderfynu mai ar y gwaelod yn ymyl y brif ffordd y mae'r tŷ newydd i gael ei adeiladu. Bydd y fynwent i gael ei chau i mewn gynted ag y bo'n bossibl, ac y mae yn eithaf parod a dyogel i roi'r gymmwynas o fedd i bwy bynag y byddo arno ei angen, pe byddai hyny yforu nesaf. Pwy fydd y blaenffrwyth, tybed? Y cam nesaf fydd cael *plans* oddiwrth bersonau o safle yn eu celfyddyd fel y gallo y pwyllgor gael mantais i farnu am y cynllun mwyaf cymhwys. Nid oes dymuniad am ryw dŷ gwych mewn ymddangosiad yn unig, nac am dŷ rhy fawr i'r alwad am dano, ond am adeilad syml, brydferth, gadarn, gweddus i egwyddorion Un-dodiaeth oleuedig ac i'r yspryd o barch at ryddid gwladol a chrefyddol a ddylai hynodi y cyfryw enwad yn neillduol yn nghwarter diweddaf y 19eg ganrif. Cynghor Samuel Sharpe, Ysw., oedd, "i godi tŷ addol-iad at gyfleusdra yr addolwyr, ac nid er gogoniant i'r adeiladydd."

W. T.

NID yw llwyddiant gwlad yn dibynu ar gyflawnder ei chyllid (*revenue*), nac ar nerth ei chaerydd, nac ar brydferthwch ei hadeiladau cyhoeddus; ond mae'n gynnwysedig yn nifer ei dinasyddion gwrteithiedig, yn ei dynion gwybodus, goleuedig, a rhinweddol. Yn hynyma y ceir ei gwir les, ei chadernid penaf, ei gallu mwyaf.—*Martin Luther.*

Y PARCH. CHARLES BEARD, LIVERPOOL, AR Y MESUR CLADDU.

Mae yn hyspys i lawer iawn o ddarllenwyr yr Ymofynydd fod y Parch. Charles Beard, mab i'r diweddar Dr. Beard, yn un o'n prif weinidogion ni yn y dyddiau yma. Yn ol yr hanes ydym wedi gael am dano o bryd i bryd yn ein newyddiaduron, y mae yn bregethwr galluog, yn ddyn dysgedig, ac yn siaradwr hyawdl, ac oblegyd hyny y mae yn cael dylanwad mawr er daioni ar ei wrandawyr. Ychydig amser yn ol, cynnygiodd bleidlais o ddiolchgarwch i gadeirydd a lywyddai ar gyfarfod o'r *Liberal Association* yn Liverpool, yn yr hwn yr oedd Mesur Claddu y Llywodraeth wedi bod dan sylw. Derbyniwyd ef gydag uchel gymmeradwyaeth, yr hyn a adnewyddwyd drachefn a thrachefn.

Dywedai nad oedd ganddo y bwriad lleiaf o wneyd araeth, ond adroddai stori wir wrthynt yn nghylch yr hyn oedd wedi cymmeryd lle, a theimlai yn ddiolchgar pe buasai ei gyfeillion y *reporters* yn gwrando arno tra yn gwneyd felly. Cyn iddo ddyfod i Liverpool, bu am ddwy flynedd ar bymtheg yn weinidog Eglwys Bresbyteraidd Seisnig mewn congl anial o Cheshire, rhyw wyth neu ddeg milldir yr ochr arall i Manchester. Adeiladwyd y capel o gylch y flwyddyn 1709, a chan nad oedd yr un eglwys blwyfol o fewn llawer o filldiroedd iddo, efe oedd, pan aeth yno o gylch deng mlynedd ar hugain yn ol, mewn gwirionedd eglwys blwyfol yr ardal. Yr oedd o'i hamgylch gladdfa o ryw ddwy neu dair erw, yr hon oedd mewn gwirionedd gladdfa y plwyf. Pan aeth efe yno, cafodd fod rheol ddynol a chariadus mewn ymarferiad yn y lle; hyny yw, y gallasai pob gweinidog Annghydffurfiol a ddymunai hyny gladdu y marw yn nghladdfa ei gapel ef, heb ofyn ei ganiatad, neu o leiaf trwy roddi hyspysrwydd ei fod yn bwriadu gwneyd felly, a meddyliai ef fod y rheol yn un dda, ac ni wnaeth yr un gwrthwynebiad iddo. Un diwrnod yr oedd yn nghwmniaeth offeiriad Pabaidd yr ardal, yr hwn oedd gyfaill iddo ef, a'r hwn a ddywedodd wrtho, "Mae genyf ffafr i ofyn i chwi, ond y mae mor ddyeithr a rhyfedd, fel yr wyf yn teimlo mor sicr na fydd i chwi ei chaniatau, fel nad wyf braidd yn dymuno gofyn am dani." "Wel," ebe Mr. Beard, "beth ydyw?" Atebodd yr offeiriad, "Yr wyf yn mhell iawn oddiwrth un gladdfa Babaidd. Mae fy mhobl yn dlawd, ac y mae treuliau angladdau yn faich trwm iawn oblegyd hyny. Yr wyf yn gwybod eich bod yn caniatau i'r Annghydffurfwyr i ddefnyddio eich claddfa; a ganiatewch hyny i mi?" Atebodd Mr. Beard, "Paham lai?" Yna dywedodd yr offeiriad, "Ni ddefnyddiaf eich capel;" ond dywedodd ef wrth yr offeiriad y gallasai wneyd hyny, oblegyd ni allai wneyd yr un niwed iddo. Dywedodd wrth yr offeiriad, modd bynag, fod un peth yn nghylch yr hyn y carai ei rybuddio, sef nad oedd y tir wedi ei gyssegru. Dywedodd yr offeiriad, "Cymmeraf fi ofal o hyny." Ni wyddai ef ddim beth feddyliai yr offeiriad hyd iddo gael allan fod y Pabyddion, gan eu bod yn henach *practitioners* yn y mater na phobl Eglwys Loegr, yn cario allan eu dyfeisiau a'u hamcanion i bwynt llawer mwy manwl, oblegyd yr oedd yr offeiriad

yn alluog i gyssegru pob bedd fel y pwrcasai ef. Nid oedd ei gyssegriad, yn rhyw fodd, ddim yn cyrhaedd y rhan arall o'r gladdfa; ond yr oedd yn ffaith ei fod yn arfer dyfod â'i angladdau yno, yn gosod ei addurniadau eglwysig am dano yn ei *vestry* ef, ac yna yn myned allan i gladdu ei farw yn nghladdfa y capel. Gallasai y sawl oeddynt yn gwrando arno fyned, os oeddynt yn dewis, i gladdfa y capel, a chael allan ddarn Pabaidd, yn llawn o feddau Pabaidd, a chroesau ac addurniadau ereill arnynt, ac nid oedd ef (Mr. Beard) ddim wedi clywed hyd yma fod y meirw Protestanaidd, yn eu hir gwsg, wedi cael eu haflonyddu gan y Pabyddion, neu fod y Pabyddion yn gorwedd yn llai tawel o herwydd fod Protestaniaid wrth eu hochr. Yn awr, y mae un esampl dda yn werth llawer o ymresymiad, a symled ag yr oedd efe (Mr. Beard), safai o'u blaen, gobeithiai, yn y sefyllfa o fod wedi deongli neu symmud ymaith anhawsdra'r claddu yn Lloegr, heb unrhyw ymyriad o'r gyfraith. E.

AWGRYMIADAU I FFERMWYR.

Mae rhai pethau y dylai pob ffermwr eu gwybod.

Defaid a ollyngir i sofl ydynt ar y cyntaf mewn perygl o ladd eu hunain trwy fwyta gormod.

Porfa wael, nid yw yn brasàu'r tir, nac yn tewychu yr anifeiliaid, nac yn ychwanegu at gyfoeth y perchenog.

Un anifail a borthir yn dda sydd yn werth dau a gedwir yn ganolig.

Po orau y gellir porthi anifeiliaid, a pho fwyaf cyssurus y gellir eu cadw, mwyaf proffidiol y byddant—ac y mae pob ffermwr yn gweithio am broffid.

Gwell aredig y tir unwaith yn dda nà thair gwaith yn ganolig.

Mae cropiau trymion yn fwy proffidiol na rhai ysgafn. Gwneler y tir yn fras, briwer ef yn fân, cadwer ef yn lân, ac yn y cyffredin daw yn gynnyrchiol.

Chwyn a gant lonydd o gylch y cloddiau, a'r ceryg, a manau ereill, ydynt yn gwasgar eu hàd dros y fferem ac yn debyg o gynnyddu.

Gwartheg a borthir yn dda yn y gauaf, a roddant fwy o laeth yn yr haf.

Pan weloch glwyd ar lawr neu yn agor, neu glawdd wedi tori, talwch y sylw priodol ato ar unwaith; os gadawir ef hyd y fory, ceir y da yn trespasu.

Y peth sydd yn galw am ei wneuthur heddyw, gwneler ef, dichon y bydd gwlaw y fory.

Tir bras a gynnyrcha gropiau da heb achles, ond cadwer ef wrtho o hyd ac fe flina.

Gwell i feibion ffermwyr ddysgu dal yr aradr a phorthi y moch, nà rhifo botymau.

Gwell i ferched ieuainc sydd yn cael y ffawd dda o ddyfod yn wragedd ffermwyr wybod y ffordd i wneuthur caws ac ymenyn nag i chwareu ar y piano.

Pwy bynag a fyno fod yn gyfoethog, rhaid iddo wario llai nag y mae'n ennill.—*Genesse Farmer.*

Janesion.

Gellionen.—Ebrill 1, 1877, talodd ysgol Sabbothol Rhydyfro ei hymweliad â'r capel uchod, er mwyn adrodd a chanu, a chan fod yr hin yn deg daeth torf luosog yn nghyd i'w gwrando, ac yn wir aethant trwy eu gwaith yn rhagorol dda. Nid oedd y tro hwn ond talu ei dyled oddiar pan y bu ysgol y lle hwn (sef Gellionen) yn Rhydyfro Hydref diweddaf. Llywyddwyd gan y Parch. J. Jones, eu gweinidog yn Rhydyfro. Wedi diweddu y gwaith, cafwyd anerchiadau gan y Parch. J. Evans ac ereill, ac yn farddonol gan Mri. L. Hopkins a H. Morgan, ac aeth pawb adref wedi eu llwyr foddloni. - W. W. T.

Ymddangosodd llythyr yn y *Christian Life* yn ddiweddar yn cyfeirio at absenoldeb y Parch. J. Davies o gyfarfod ein cyfeillion yn Dowlais. Yr ydym yn gobeithio nad yw ei absenoldeb i'w briodoli at un amcan o eiddo y cyfeillion i iselu neu anmharchu Mr. Davies.

Gwerthwyd copi o'r Beibl, pwy ddydd, yn 400 oed, am fil o bunnau.

Dywedir fod cynllun ar droed yn China i ddanfon offeiriaid Bwdistaidd i Brydain fel cenadon.

A ydyw'r byd yn myned rhag ei flaen? Mae'r *judge* newydd—Syr Edward Fry—yn aelod o gyfundeb y Crynwyr, ac wedi ei appwyntio gan y Toriaid!

Dywedir fod rhai o'r Swedenborgiaid yn ddiweddar wedi bod yn ystyried y priodoldeb o "ddiwygio a gwella" Gweddi'r Arglwydd.

Mae un o'r papurau Iuddewig yn cynghori'r offeiriaid i adael yr Iuddewon yn llonydd, a cheisio gwella Crist'nogaeth eu gwrandawyr.

Dywed Mr. Moody fod y byd hwn yn *wreck*, ac mae'r unig beth i'w wneuthur yw gyru'r bywydfad trwy'r tonau ac achub y *passengers*.

Y Parch. J. Baldwin Brown fydd cadeirydd yr Undeb Cynnulleidfaol yn 1878. Arwydd arall fod y byd yn symmud yn y blaen. Ystyrid ef ychydig yn ol yn mhell iawn o fod yn iach yn y ffydd

Yn ol tystiolaeth meddygon, mae llymeitan y diodydd meddwol yn cynnyddu yn ddychrynllyd yn mhlith y rhyw fenywaidd. Nid tebyg eu bod etto mor gyfarwydd â'r gwaith a'r rhyw arall.

Dydd Sul, Mai 13, yr oedd y Pab yn bedwar ugain mlwydd a phump. Mewn araeth ar y diwrnod hwnw, galarai yn fawr o herwydd dirywiad Pabyddiaeth yn Itali, a llawenychai oblegyd ei gynnydd yn Lloegr.

Nid ydys yn y cyffredin yn ystyried fod credo Mr. Voysey yn un hir iawn, ond mae Mr. Voysey bron bod yn wfftio credo Mr. Conway. Dywed ei fod "yn ymwrthod â gweddi, ac â phersonoliaeth Duw, a'i fod yn ei galon yn Pantheist." Nid yw Voysey yn foddlawn cael ei alw yn Gristion.

Mawr y gofid sydd ar bobl yr Eglwys. Y wasg Gymreig sydd yn eu blino yn awr, yr hon mae'n debyg sydd wedi syrthio bron yn gyfangwbl i ddwylaw yr Annghydffurfwyr. Mae Deon Bangor yn achwyn yn dost, ac wedi gwneuthur cais at y "Lower House of Convocation" i gymmeryd y mater dan ystyriaeth i'r dyben i leihau y drwg. Beth nesaf?

Beth fydd barn y menywod? Mae un o honynt ag sydd yn aelod o Fwrdd Ysgol Llundain newydd briodi. Nid oes dim yn neillduol yn hyny. Ond y mae'n anfoddlawn cymmeryd enw ei gwr, ac y mae yntau, yn hytrach nâ'i cholli feallai, wedi caniatau hyny. Beth fydd yr ennill? Gelwir hi yn Mrs. Rhywbeth, ac yntau yn Mr. Rhywbeth-arall. Ond beth fydd y plant yn cael eu galw?

Beth all fod y rheswm fod cymmaint o ragfarn gan rai yn erbyn i'r menywod gael yr etholfraint? Os ydyw *taxation* a *representation* i fyned gyda'u gilydd, os yw cadw tŷ yn rhoddi hawl i'r bleidlais, paham gwrthodir hyny i fenyw, os yn cadw tŷ? Dywed Miss Becker fod ei rhywogaeth hi yn cael eu gosod yn is nâ charcharorion, a lloerigion, a phlant; oblegyd caniateir i garcharorion bleidleisio ar ol gadael y carchar, ac i loerigion os ar adegau dysglaer y gallant gofio enwau yr ymgeiswyr, ac i blant ar ol cyrhaedd oedran gwyr; ond nid oes gobaith am fenywod.

Mae'n ddiamheu fod rhai o'n hoffeiriaid yn cynnyddu mewn beiddgarwch, a bod defodau Pabyddol yn cynnyddu yn ein plith. Dyma eiriau diweddar un Parch. R. N. Shutte: "Deuent yn eofn at offeiriad appwyntiedig Duw i dderbyn maddeuant. Ni wyddant y fath gwlwm tyner a godai yn fuan rhyngddynt ag ef—cwlwm mwy tyner nag a fu erioed rhwng gwr a gwraig nac un berthynas arall." Mae Mr. Spurgeon yn barnu nad yw pwnc y "cwlwm tyner" yma ddim yn ol chwaeth John

Bull, ac yn awgrymu y dylid cau y sefydliad i fyny, a gyru llanciau fel hwn i chwareu eu pranciau ar eu cost eu hunain.

MEWN rhifyn diweddar o'r *Congregationalist*, papur yr Ann bynwyr, dywedid :— "O'r diwedd mae Gweddi'r Arglwydd wedi ei defnyddio yn y Tabernacl—gan Philip Brooks, nos Wener, o flaen pregeth Mr. Moody. A oes rhywun yn gwybod iddi gael ei defnyddio o'r blaen yno, oddieithr unwaith gan yr un gwefusau? Os na, pam na?" Dichon nad yw Mr. Moody, fel ereill a adwaenwn, yn ei hystyried yn iawnffyddol. Nid oes dim Iawn Cyfrifol ynddi, dim Trindod, dim Damnedigaeth Tragwyddol. Mae gofyn fod credo dyn yn fwy "iawnffyddol" nâ Gweddi'r Arglwydd y Bregeth ar y Mynydd, a Dammeg y Mab Afradlon, cyn y gall ddysgwyl cael ei wahodd i gydweithio yn adfywiadau neu ddiwygiadau (fel eu gelwir) y dyddiau diweddaf hyn.

Marwgofion.

Chwefror 10, yn 72 mlwydd oed, David Lloyd, Pound Llanbedr. Yr oedd ein cyfaill yn gwanychu er ys cryn amser, ond nid oeddem yn meddwl fod dydd ei ymddatodiad mor agos. Gadawodd weddw oedranus a phlant wedi eu magu i alaru ei ol. Nerth gaffont i ymdawelu o dan eu profedigaeth bresenol. Gosodwyd ef i huno yn mynwent capel yr Undodiaid yn Llanbedr. Pregethwyd ar ddydd ei gladdedigaeth gan y Parch. R. C. Jones.

Dydd Llun, Chwefror 19eg, yn 84 oed, Mrs. Martha Llewelyn, 5, Phillip Street, Mountain Ash, (gweddw y diweddar Dafydd Llewelyn, gwr enwog am ei ffraethineb ac am ei wybodaeth aduwinyddol ac astronomyddol.) Treuliodd Mrs. Llewelyn y rhan fwyaf o'i bywyd yn Llwydcoed a Heolyfelin, ond er ys amryw flynyddau yr oedd hi a'r plant (oeddent weddwon) wedi sefydlu yn Mountain Ash. Yr oedd y trancedig yn wraig o fuchedd hardd a rhinweddol, yn fam dyner, a gofalus o'i theulu, ac yn gymmydoges hawddgar a charedig. Gobeithiwn fod ei theulu sydd ar ei hol, yn ymgyssuro ar yr addysg nefol a gyfranwyd iddynt, yn moreuddydd byw d ar yr aelwyd gartref. Claddwyd hi y Llun canlynol yn mynwent Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, pryd y gweinyddwyd gan y gweinidog, y Parch. W. James.

Mawrth 3, yn 43 mlwydd oed, William Evans, New York, Pencarreg. Ni fu y brawd hwn erioed yn meddu ar nerth corfforol cryf. Yr ydym yn deall ei fod ef yn un o sylfaenwyr yr Ysgol Sul yn y Ram; a chan nad pwy fyddai yn alsenol yr oedd ef fynychaf yn ei le. Yr oedd ynhoff iawn o ddigrifwch diniwed ond nid oedd ei galon ef byth yn nythle i ddichell a thwyll. Claddwyd ef yn mynwent Eglwys Llanbedr, a phregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. R. C. Jones.

Mawrth 3, Wm, Beynon, Maesteg, yn 47 oed. Yr oedd y trancedig yn fab i'r diweddar Barch. Dd. Beynon, o St. Clears. Ymadawodd a chartref yn ieuanc, a bu yn trigiannu rai blynyddau yn Aberdar, lle bu yn ffyddlon iawn gyda'r achos Undodaidd Saesneg. Ymadawodd ag Aberdar tua adeg y *strike* ddiweddaf, ac aeth i'r Maesteg lle y cyfarfyddodd a damwain dost rhyw fis cyn ei farwolaeth trwy i gwymp syrthio arno tra yn dilyn ei orchwyl, yr hyn a fu yn achos o'i farwolaeth. Gadawodd briod a saith o blant i alaru ar ei ol. Claddwyd ef y dydd Mawrth canlynol yn nghladdfa Saron, capel yr Annibynwyr, Maesteg, a gwasanaethwyd ar y pryd gan weinidog y lle. Dichon na fyddai maes o le i grybwyll fod y Parch David Beynon wedi traddodi pregeth yn y capel uchod (?) rhyw 18 mlynedd yn ol pan ar ymweliad â'i feibion. L.

Mawrth 26ain, yn 77 oed, Thomas Jones, Gof, Melin Clettwr, Llandyssul. Claddwyd ef y dydd Mercher canlynol yn Pantdefaid. Pregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur oddiwrth Pregethwr xii. 1—7, yn ol dymuniad yr ymadawedig. Undodwr trwyadl ydoedd, ac aelod deallus a defnyddiol o'r gynnulleidfa Undodaidd yn y lle uchod am flynyddoedd meithion. Gwnaeth lawer dros y canu a phethau da ereill yn ei ddydd. Yr oedd yn ddarllenwr craffus ac yn feddyliwr dwfn. Casglodd lawer o wybodaeth, mwy na'r cyffredin mewn cyffelyb amgylchiadau. Fel dyn crefyddol, ni chadwai lawer iawn o swn yn nghylch ei grefydd: crefydd *gwreyd*, ac nid crefydd *tafod* oedd crefydd Tomos y Gof. Y rhan amlaf y cofnodir eu marwolaeth ar dudalenau'r YMO-

FYNYDD a manau ereill, ydynt ddynion *perffaith.* Nid oedd y cyfaill, Tomos y Gof, felly: perthynai iddo wendidau—nid oedd heb bechodau, ac yr oedd yn ymwybodol o honynt. Yr oedd yn gystal dyn a llawer yr ysgrifenir cofiantau meithion iddynt, a bydd cof am dano yn ardal ei enedigaeth pan y byddont hwy a'u cofiantau wedi myned i ebargofiant. Hyn yn fyr am Tomos y Gof gan un a'i carai ac a'i hedmygai yn fawr.

Ebrill 8fed, Arbert Jones, Nantyfuwch, yn 28 mlwydd oed, ar ol byr gystudd gan y fogfa. Mab ydoedd i Hugh ac Ann Jones, Nantyfuwch. Yr oedd ei fam yn ferch i Mr. John Lewis, gynt o'r Penfarch, ac felly yr oedd yn hanu o hen achau Undodaidd. Yr oedd yntau yn fachgen cywir yn ei rodiad, ac yn cael ei barchu yn ei ardal. Yr oedd yn un o wrandawwyr cysson y Cwmwrdu. Gweinyddwyd dydd yr angladd gan y Parch. David Evans, B.A., Maesymeillion, oddiwrth 2 Cor. i. 3. M. R.

Dydd Iau, Ebrill y 12fed, yn 69 mlwydd oed, yr hyddysg berganiedydd Mr. John Thomas Jones, Mwnwr, Twyn-yr-Odyn, (gynt o Penyrheolgeryg), Merthyr, un o hen aelodau cor byd enwog ein bythglodus "Delyn ein cenedl ac Handel ein canu" Ieuau Ddu. Bu yn arweinydd cor Hen-dy-cwrdd y Cefn, oddiar yn ddyn ieuanc hyd nes ei luddias gan amgylchiadau anorfod a methiant corfforol; ond er iddo roddi i fyny arweiniad y cor, nid oedd modd gwneyd felly â'r canu, yr hyn oedd yn uu o'i ddyddanion penaf, a pharhaodd hyd ei ddyddiau olaf i berseinio mawl i'w Dad nefol. Pan ei rhwystrid i fyned i'w gorlan gynnwynol, elai i addoli at ein brodyr Saesnig ar Dwyn yr Odyn, lle yr oedd ef (megys ar y Cefn) yn un o brif bileri y cor. Bu yn aelod hardd, ffyddlawn a diargyhoedd o'i ieuenctyd gyda yr Undodiaid ar Gefncoedcymmer, ac er ei fod trwy ystod ei fywyd yn trigiannu mewn lle annghyfleus, etto mynychai yr addoliad a chylarfodydd ereill perthynol i'r gynnulleidfa yn ffyddlawn a thra diesgulus. Yr oedd y trancedig yn ddiarebol am ei wyleidd-dra diymhongar ac ystyried ei wybodaeth fawr brofiadol mewn cerddoriaeth; yr oedd yn wladwr rhyddgarol "i'r carn," ac hefyd, nid yn unig yn ddarlleuwr mawr, ond hefyd yn feddyliwr dwys a phwyllog, ac er ei fod yn wr o dymher fwyn, dawel, ac hunanymwadol, etto ar ol pwyso cwestiwn yn bwyllog, pan (fel y dywedir) y rhoesai ei droed i lawr, nid hawdd fuasai ei ddarbwyllo i'w thynu i 'nol. Dydd Llun canlynol rhoddwyd ef yn ei orphwysfa olaf yn nghladdfa Hen-dy-cwrdd y Cefn; yr oedd y cynhebrwng yn lluosog a pharchus iawn; gweinyddwyd gan y Parchedigion N. R. Williams, Twyn-yr-odyn, a W. James, B.A. Aberdar.

Er i ni yn ein dallineb,
Fethu canfod llaw ein Tad,
Pan gymmero'n ei ddoethineb,
Ato ein hanwyliaid mâd;
Goleu'r Groes sydd yn eirianu
Llwybrau'r ffyddiog, pan yn brudd,
Nes eu helpu 'mlaen tan ganu,
Ganol nos fel canol dydd.

Pan yn nghaddug nos anmheuaeth,
A'i oer lwydrew'n syrthio'n drwch,
Pan fo'r cyfrwys trwy 'i ddadleuaeth,
'Mron ein dallu â'i fân lwch;
Wele lygad Tad yn gwenu
Trwy'r tywyllwch dudew mawr,
Addysg Crist sy'n ei ddadlenu,
Mawl i Dduw am doriad gwawr.

Cynonwyson.

Ebrill 26ain, yn 75 oed, Elizabeth, priod Benjamin Scourfield, Porthcawl Road, Porthcawl, a chladdwyd hi y Llun canlynol yn mynwent Eglwys y Drefnewydd. Dyoddefodd y chwaer ymadawedig hon gystudd trwm a maith. Bu yn aelod am lawer o flynyddau yn Hen-dy-cwrdd y Nottais. Gweinyddwyd yn ei hangladd gan y gweindog, y Parch. Titus Lloyd.

Mai 4ydd, yn 25 mlwydd oed o'r ddarfodedigaeth, Mrs. Mary Anne Thomas, Fox & Hounds, Llanwnen. Bu'n hir yn rhodio yn nychlyd ar hyd glan yr afon, ac o'r diwedd cafodd fynediad tawel trwy. Bu'n aelod ffyddlon am flynyddau o'r eglwys yn Alltyplaca, lle y gwelir ei heisiau'n fawr. Arglwydd y cynhauaf a anfono etto rai o gyffelyb yspryd i lanw ei lle yn y winllan, ac a gynnorthwyo ei phriod a'i pherthynasau i alaru'n gymmedrol ar ei hol. Claddwyd hi yn mynwent eglwys blwyfol Llanbedr; a gweinyddwyd yn y ty gan y Parch. J. Davies.

Mai 12fed, yn 77 mlwydd oed, Elizabeth Davies, Abergiar, Llanllwni, wedi hir gystudd. Yn ol ei dymuniad, hebryngwyd ei gweddillion marwol i fynwent eglwys Llandyssul gan dyrfa luosog, a chyflawnwyd y gwasanaeth arferol yn y ty gan y Parch. J. Davies. Gallesid meddwl nad rhyw fanteisiol iawn i fod yn siriol oedd amgylchiadau ein hen chwaer, ond siriol iawn ydoedd hi. Anfynych y clywid hi yn cwyno ac yn achwyn, a phan y byddai ereill yn gwneyd, yr oedd ganddi'n wastad ryw falm cyssur iddynt.

Barddoniaeth.

LLWYNRHYDOWEN.

What is in a name?—SHAKSPERE.

Os ymaith oddiarnom y dygwyd y lle—
Hen gapel y tadau a aethant i'r ne' ;
Ni gadwn yr enw er gwaetha' pob trais,
A bydd Llwynrhydowen ein Henw parhaus.

Ar lechwedd teg heulog, uwch Clettwr ber si,
Lle briall a meillion ynt heddyw heb ri,
Ni godwn ein temel i Lywydd y byd :
Ond saif Llwynrhydowen ein Henw o hyd.

Er newid ein lle, o'n lliw, dim lled troed ;
Mae'r hen egwyddorion mor fyw ag erioed.
Mwy uchel na chynt ni ddyrchafwn i'r lan
Y faner fu'n chwyfio ar gaerau'r hen fan.

'Cha storm erledigaeth ond enyn y tân
O gariad at Ryddid yn fwy nag o'r bla'n ;
O frwydro, yn loewach daw arfau ein ffydd,
Ac achos Cyfiawnder fyn ennill y dydd.

Ein dagrau, a godent yn gymmysg a'n cwyn
Fil waith gysegrasant hen fynwent y Llwyn;
A'r gladdfa deg newydd ar ystlys y fron,
Nid dagrau llai santaidd o gariad gaiff hon.

Os ymaith oddiarnom y dygwyd y lle—
Hen gapel y mamau a aethant i'r ne' ;
Ni godwn yr enw er gwaetha pob trais,
A bydd Llwynrhydowen ein Henw parhaus.

TYRTAEUS.

TRI ENGLYN

A gyfansoddwyd ar farwolaeth Miss R. Jones, Tanycoed, Llanwenog, (nith y Parch. J. Davies, Alltyplaca,) yr hon fu farw Ebrill 2, 1877, yn 20 oed.

Yn ei gwanwyn yn gynar—fe hunodd
Y feinir deg, hawddgar ;
Un mwy llon nâ'r wirion wâr,
Och Duw ! ni chaed uwch daiar.

Nid oes cur, dolur, na du alaeth—'nawr
Yn y deg diriogaeth ;
Mawr elw oedd marwolaeth,—
O'i hir ing i'r Nef yr aeth.

Aeth Rachel i fyd tawelach,—i wlad well,
Y goludoedd tecach ;
Hi gân mewn gwlad amgenach,
Uwch llygredd y bedd oer bach.

Ebrill 12, 1877. G.

MYFYRDOD AR DDIWEDD Y FLWYDDYN 1876.

Mae amser dros ei chwareu-fwrdd
Yn taflu blwyddi'r byd o'i law,
Mae un yn rhagor ar fyn'd ffwrdd
I for y trag'wyddoldeb draw,
O oror y trag'wyddol pell
Daw llais cydwybod dan fy mron
I ofyn faint yw'r byd yn well
O'th achos di y flwyddyn hon?

A welaist ti y weddw wan,
A'i dagrau'n gwlychu bedd ei gwr ?
A wnest ti rywbeth ar ei rhan
I godi 'i phen uwch law y dwr ?
A rifaist ti'r amddifaid mân
Oedd ganddi gylch y tlodaidd fwrdd ?
A wnaeth haelioni 'th fron yn dân
Cyn iti droi dy wyneb ffwrdd ?

A wnest ti dynu'r trawst i ffwrdd
O'th lygad gan ei wneyd yn iach ?
Cyn i ti gynnyg myn'd i gwrdd
Yn un dy frawd frycheuyn bach ?
A wnest ti faddeu i bob un
A berodd i ti boen a loes ?
A wnest ti 'th oreu i wella'th hun,
Er mwyn iawnhau dy lwybrau croes ?

A fuost ti i'r cloff yn ffon ?
A wnest ti godi'r tlawd o'r clais ?
A wnest ti galon drist yn llon ?
A godaist law yn erbyn trais ?
A roddaist ddillad am y noeth ?
A roddaist i'r sychedig ddw'r ?
A ro'est i'r ifanc gyngor doeth,
I fyw a rhodio 'n gyfiawn wr ?

A wnest ti arwain y dyn dall
A'i osod ar y ffordd yn iawn ?
Rhag syrthio i bydewau'r fall,
Lle mae drygioni'r byd yn llawn ?
Os gelli ateb rhai'n yn llawn
Ti elli fod a'th ffydd yn gref
I ti ymlwybro'n agos iawn
Os nid yn nghanol teyrnas nef.

Mae blwyddyn arall yn y man,
Mi glywaf ei cherddediad bron ;
A chawn ei gwel'd yn amlwg pan
Y daw i gladdu'r flwyddyn hon.
Y flwyddyn nesaf boed i'n wneyd
Daioni 'n agos ac yn mhell ;
Fel gallom ar ei diwedd ddweyd
Mae'r byd a ninau'n llawer gwell.

Rhagfyr 31, 1876, G. GWENOG.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

TALIADAU.

Mrs. E., Vrondolay; S. H., Cribin; S. D., Coedparc; J. L., Dowlais; M. R., Brechfa; Gwilym Brycheiniog; Eiddil Cynon; L. R. Ll., Llandyssul.

Diangodd amryw farwgofion yn y rhifyn o'r blaen, trwy fod y Golygydd oddicartref, ac y mae rhai ysgrifau wedi eu gadael allan y tro hwn o ddiffyg lle. Deuant yn ddefuyddiol etto.

GWELLIANT GWALL.--Yn yr ysgrif ar yr Helbul yn Llwynrhydowen yn y rhifyn diweddaf, tud. 67, llin. 15 o'r pen, yn lle "ceulan," darllener "conglau."

☞ Bydd taliad yn ddyledus gyda'r rhifyn hwn: sylwer ar liw yr amlen.

Y CYFARFOD BLYNYDDOL.

Cynnelir Cyfarfod Blynyddol Undodiaid Cymreig y Deheubarth eleni yn Pantdefaid, ar y 27ain a'r 28ain o Mehefin (y mis hwn), i ddechreu prydnawn dydd Mercher am 6, a boreu dydd Iau am 10. Y pregethwr dydd Iau fydd y Parch. W. James, A.B. Pwnc y gynnadledd fydd "Y prif rwystrau ar ffordd Undodiaeth a'r modd goreu i'w symud ymaith." Darllenir papyr ar y pwnc gan y Parch. Mr. Evans, Gellionen.

CYFARFOD YSGOLION SABBOTHOL SIR ABERTEIFI.

Cynnelir Cylchwyl Flynyddol Ysgolion Sabbothol Dosparth Uchaf Sir Aberteifi eleni yn Rhydygwin, ar ddydd Mercher, Mehefin 6ed. Ymdreched pob ysgol, a phob aelod ysgol, os yn bossibl, fod yn bresenol. Mewn cydweithrediad ac undeb mae nerth. G. AB G.

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD.

MAE bron bod yn barod i'r wasg, a byddai yn ddymunol fod pawb yn anfon eu harchebion i mewn gynted ag y byddo'n bossibl, gan na fwriedir argraffu ond nifer pennodedig. Bwriedir rhoddi saith copi am bris chwech. Ceir manylion pellach etto. Carem fod pob cynnulleidfa yn gofalu am ddigon i wasanaethu am ddeng mlynedd, fel na byddo *risk* y cyhoeddi yn gorphwys ar un.

Yn awr yn barod, Pris 3s. a 6ch., wedi ei rwymo yn hardd,

AIL ARGRAFFIAD O

TELYN DEWI,

SEF GWAITH PRYDYDDAWL Y PARCH. DAVID DAVIS,

GYNT O GASTELL-HYWEL, CEREDIGION.

Fel mae yn hyspys i lawer fod y Gwaith uchod allan o Brint er's blynyddau, a diamheu y bydd ymddangosiad yr Ail Argraffiad hwn yn hyfrydwch ac yn dderbyniol gan Feirdd a Llenorion Cymru. Y mae yn cynnwys llawer o ddarnau o'i waith nad oeddynt yn yr Argraffiad cyntaf—yn nghyd â Hanes ei Fywyd. a Darlun hardd o'r Awdwr.

Erfynir ar bawb a ewyllysiant gael copi o'r Gwaith uchod anfon eu henwau yn ddioed i'r cyhoeddwr, J. DAVIS, Argraffydd, Llanbedr.

AT EIN DARLLENWYR.

TELERAU.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., 36, Gadlys Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
Aberdare.